

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 4/2026

Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2026

Adolygiad cwmpasu o ddangosyddion datblygiad plant a'r mesurau a ddefnyddir ar gyfer plant 2 i 11 oed

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Adolygiad cwmpasu o ddangosyddion datblygiad plant a'r mesurau a ddefnyddir ar gyfer plant 2–11 oed: adroddiad terfynol

Awduron: Dr Duncan Holtom, Rhodri Bowen ac Emma Preece

Adroddiad Ymchwil Llawn: Holtom, D., Bowen, R. and Preece, E. (2026).
Adolygiad cwmpasu o ddangosyddion datblygiad plant a'r mesurau a
ddefnyddir ar gyfer plant 2–11 oed: adroddiad terfynol. Caerdydd:
Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 4/2026.

Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/adolygiad-cwmpasu-o-ddangosyddion-mesurau-datblygiad-ddefnyddir-ar-gyfer-plant-2-i-11-oed>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a
Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r awduron ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gefnogi'r gwerthusiad drwy weithdai a chyfweliadau.

Diolch yn arbennig hefyd i Bethan Gilson a Dr Jack Watkins o Lywodraeth Cymru, aelodau grŵp llywio'r prosiect, ac i Dafydd Thomas, a oedd yn rhan o'r tîm ymchwil, am eu mewnwleidiadau, eu cymorth a'u syniadau i gefnogi'r gwerthusiad hwn.

Tabl cynnwys

Tabl cynnwys	2
Rhestr o dablau	3
Rhestr o ffigurau a siartiau	4
Rhestr termau	5
1. Cyflwyniad	8
2. Methodoleg	14
3. Canfyddiadau: Pwysigrwydd Dangosyddion a Mesurau Datblygiad Plant, a'r Defnydd Effeithiol Ohonynt	19
4. Canfyddiadau: nodweddion dangosyddion a mesurau	49
5. Casgliadau	58
Llyfryddiaeth	64
Atodiad A. Rhestr o offer a dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad	65
Atodiad B. Rhestr gyfweld: Adolygiad cwmpasu o ddangosyddion datblygiad plant a'r mesurau a ddefnyddir ar gyfer plant 2–11 oed	96

Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Enghreifftiau o wahaniaethau mewn grwpiau a chyfundrefn enwi datblygiad plant a ddefnyddir gan fesurau / fframweithiau dethol.....	21
Tabl 3.2: Y modelau llinol a lluosogol o ddatblygiad plant.....	23
Tabl 3.3: Dau fath o fesur: Sgrinio ac asesu crynodol a Gwylidwriaeth ac asesu ffurfiannol	35

Rhestr o ffigurau a siartiau

Ffigur 1.1: Polisiâu allweddol sy'n cefnogi datblygiad plant (gyda'r oedran a gwmpesir mewn cromfachau)	8
Ffigur 1.2: Y profiadau a'r amgylcheddau sydd eu hangen ar blant ar gyfer y dechrau gorau mewn bywyd	9
Ffigur 2.1: Proses sgrinio	16
Ffigur 2.2: Crynodeb o chwiliadau a'r eitemau a gynhwysir yn yr adolygiad neu eu heithrio ohono	17
Ffigur 3.1: Enghraifft o feysydd datblygiad plant	19
Ffigur 3.2: Cromlin Heckman	30
Ffigur 3.3: Mesurau datblygiad plant a mesurau newid sy'n gysylltiedig â datblygiad plant.	44
Siart 4.1: Nifer y dysgwyr Saesneg fel iaith ychwanegol/Cymraeg fel iaith ychwanegol dysgwyr 5 oed a throsodd sydd yn yr ysgol ym mhob rhanbarth o Gymru, 2015/16 to 2024/25	56

Rhestr termau

Mae **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** yn ddigwyddiadau trawmatig, yn enwedig y rhai yn ystod plentyndod cynnar sy'n cael effeithiau parhaol ar iechyd, datblygiad a chanlyniadau bywyd.

Mae **datblygiad plant** yn disgrifio'r gyfres o newidiadau corfforol, synhwyrdd, ieithyddol, gwybyddol, emosiynol ac ymddygiadol sy'n digwydd mewn plentyn o'i genhedlu hyd at lencyndod.

Nod **Cwricwlwm i Gymru** yw cefnogi pob dysgwr i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Dyma '**bedwar diben**' y cwricwlwm. Mae dysgu wedi'i drefnu'n chwe **Maes Dysgu a Phrofiad** (wedi'u talfyrru i 'Meysydd'): y Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd, a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae pob Maes yn dwyn ynghyd bynciau cysylltiedig i helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth, a gwerthoedd mewn ffordd gyfannol a rhyng-gysylltiedig sy'n cefnogi eu twf fel dinasyddion galluog, creadigol a moesegol.

Mae **pŵer gwahaniaethu** yn disgrifio gallu dull neu offeryn ymchwil i wahaniaethu'n ystyrlon rhwng plant â gwahanol lefelau datblygiadol.

Mae **Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar** yn ymwneud â datblygu a chyflwyno dull cyson o feithrin, dysgu a datblygu, drwy ddarparu gofal plant ac addysg o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar chwarae, ar gyfer pob baban a phlentyn bach 0-5 oed. Gellir darparu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar drwy leoliadau gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin cyn oedran ysgol statudol.

Mae **asesu ffurfiannol** yn disgrifio gwerthusiad parhaus i fonitro cynnydd plant a llywio addysgu. Mae'n helpu ymarferwyr i nodi cryfderau, meysydd datblygu, a'r camau nesaf i gefnogi dysgu a datblygu pob plentyn.

Mae **gweithredu** yn disgrifio pa mor effeithiol y gall person fyw'n annibynnol, ymgysylltu'n gymdeithasol, gweithio, dysgu, a gofalu amdanynt eu hunain.

Mae **dangosydd** yn cynrychioli'r canlyniadau y disgwylir i blant eu cyflawni ac mae **mesur** yn cyfeirio at ffyrdd o fesur a monitro cynnydd yn erbyn y dangosyddion penodol hyn.

Mae **amrediad rhyngchwartel** yn fesur o'r lledaeniad neu'r amrywioldeb mewn set o ddata. Mae'n dangos yr ystod y mae'r 50% canol o'r data yn gorwedd ynddi. Fe'i cyfrifir drwy dynnu'r chwartel isaf o'r chwartel uchaf.

Mae **modelau llinol o ddatblygiad plant** yn disgrifio dilyniant dilyniannol a rhagweladwy drwy gyfres o gamau sefydlog neu gerrig milltir, fel arfer yn dilyn un llwybr cyffredinol. Mae hyn yn cymryd yn ganiataol bod pob plentyn yn symud drwy'r camau hyn yn yr un drefn ac ar yr un cyflymder yn fras, ac yn pwysleisio normau fel dangosyddion cynnydd – a bod peidio â bodloni'r rhain yn achos pryder

Chwartel isaf yw'r gwerth y mae 25% o'r data yn disgyn oddi tano.

Mae **niwroamrywiaeth** yn disgrifio sut y mae gan bob un ohonom wahaniaethau unigol yn y ffordd y mae ein hymennydd yn gweithio. Fodd bynnag, ceir grwpiau o bobl hefyd sy'n prosesu gwybodaeth mewn ffordd debyg i'w gilydd a chyfeirir atynt fel rhai sydd â'r un **niwroteip**. Mae hyn yn golygu y gall fod gwahaniaethau mawr rhwng gwahanol niwroteipiau.

Niwronodweddiadol: Dyma'r niwroteip mwyaf cyffredin. Gan fod pobl niwronodweddiadol yn y mwyafrif maent yn tueddu i ffynnu gan fod yr amgylchedd yn aml wedi'i lunio gan bobl niwronodweddiadol eraill sy'n golygu bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu.

Niwrowahanol: Gall niwroteipiau lleiafrifol gynnwys cyflyrau fel awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywioigrwydd (ADHD), dyscalcwlia, dyslecsia, Anhwylder yn Natblygiad y Cydsymud ac Anhwylder Datblygu Iaith, a gellir eu disgrifio hefyd fel cyflyrau niwroddatblygiadol. Gyda'i gilydd cyfeirir at bobl â niwroteipiau lleiafrifol fel niwrowahanol.

Modelau normadol o ddatblygiad plant: maent yn disgrifio dilyniant llinol (dilyniannol a rhagweladwy) drwy gyfres o gamau sefydlog neu gerrig milltir, fel arfer yn dilyn un llwybr cyffredinol. Mae hyn yn cymryd yn ganiataol bod pob plentyn yn symud drwy'r camau hyn yn yr un drefn ac ar yr un cyflymder yn fras ac yn pwysleisio normau fel dangosyddion cynnydd a bod peidio â bodloni'r rhain yn achos pryder.

Mae **modelau lluosogol o ddatblygiad plant** yn disgrifio llwybrau lluosog, gwahanol y mae plant yn tyfu, yn dysgu ac yn datblygu sydd i gyd yn cael eu hystyried yr un mor ddilys. Gellir eu cyferbynnu â modelau llinol o ddatblygiad plant.

Mae **ansawdd seicometrig** yn disgrifio nodweddiad offeryn asesu seicolegol, fel ei ddibynadwyedd a'i ddilysrwydd, sy'n pennu ei ansawdd a'i effeithiolrwydd.

Mae **dibynadwyedd** yn disgrifio i ba raddau y mae prawf yn mesur yn gyson yr hyn y bwriedir ei fesur.

Mae **dirlawnder** yn gysyniad a ddefnyddir mewn ymchwil ansoddol i ddisgrifio sefyllfa lle nad oes syniadau neu themâu newydd yn cael eu nodi, sy'n golygu bod casglu a/neu ddadansoddi rhagor o ddata yn ddiangen.

Mae **sgriniwr** yn set safonol o eitemau, fel cwestiynau mewn holiadur a/neu dasgau uniongyrchol syml, a fwriedir i'w defnyddio i adnabod plant a allai fod mewn perygl o oedi datblygiadol yn gyflym ac y dylid cynnig asesiad neu gymorth dilynol iddynt

Mae **sgrinio** yn canolbwyntio ar nodi materion penodol fel colli clyw neu oedi mewn datblygiad, ar adeg mewn amser, ac mae **gwyliadwriaeth** yn canolbwyntio ar fonitro datblygiad cyffredinol plentyn yn barhaus.

Mae **asesu crynodol** yn disgrifio gwerthusiad o ddysgu a datblygu plentyn ar adeg benodol, yn aml ar ddiwedd cyfnod neu gam.

Chwartel uchaf yw'r gwerth y mae 75% o'r data yn disgyn oddi tano.


Mae **dilysrwydd** yn disgrifio i ba raddau y mae prawf yn mesur yr hyn y bwriedir ei fesur. Yn y cyd-destun hwn, mae **dilysrwydd lluniad** yn disgrifio a yw prawf yn mesur y lluniad datblygiadol y mae'n anelu at ei fesur, mae dilysrwydd naratif yn disgrifio a yw'r canfyddiadau yn cyd-fynd ag arsylwadau neu naratifau yn y byd go iawn ac mae **dilysrwydd allanol** yn disgrifio i ba raddau y gellir cymhwyso canfyddiadau i gyd-destunau, lleoliadau a phoblogaethau eraill neu i gyfnodau eraill o amser.

1. Cyflwyniad

1.1. Cyd-destun Polisi

Nod [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio dull mwy cydgysylltiedig, i feddwl yn yr hirdymor, i atal problemau, ac i weithio'n well gyda phobl a chymunedau. Mae'r blynyddoedd cynnar yn cael eu hystyried yn hanfodol i ddatblygiad corfforol, gwybyddol, ieithyddol a chymdeithasol-emosiynol plant ac felly hefyd yn hanfodol i lesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. Mewn ymateb, un o nodau craidd [Cynllun Plant a Phobl Ifanc](#) 2022 yw bod plant a phobl ifanc yn cael 'y dechrau gorau' mewn bywyd ac, fel y dengys Ffigur 1.1, mae nifer o bolisiau allweddol ym maes iechyd, addysg a'r blynyddoedd cynnar ^[Troednodyn1] yn canolbwyntio ar gefnogi datblygiad plant. Maent yn canolbwyntio ar grwpiau o blant a ddiffinnir yn ôl eu hoedran, ac (yn achos rhaglenni wedi'u targedu'n ddaearyddol fel Dechrau'n Deg) lle maent yn byw sydd, fel yr amlinellir isod, yn cael ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol.

Ffigur 1.1: Polisiau allweddol sy'n cefnogi datblygiad plant



Trafodir pob un o'r polisiau hyn ymhellach isod.

[1] Yn [Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant](#), a gyhoeddwyd yn 2013, diffiniodd Llywodraeth Cymru y 'blynyddoedd cynnar' fel y cyfnod bywyd o'r cyfnod cyn geni hyd at 7 oed. Fodd bynnag, mae polisiau a rhaglenni blynyddoedd cynnar yn rhychwantu'r ystod oedran 0-5

1.2. Polisiâu iechyd

Mae'r [1,000 Diwrnod Cyntaf](#) yn rhaglen gwella iechyd dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n anelu at gefnogi rhieni i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plentyn. Mae'n canolbwyntio ar yr amser hanfodol o genhedlu hyd at ail ben-blwydd plentyn, oherwydd bod y cyfnod o ddatblygiad cynnar “yn darparu sylfaen ar gyfer pob datblygiad corfforol, cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol yn y dyfodol” (ibid.). Fel y dengys Ffigur 1.2, mae'r rhaglen yn nodi bod canlyniadau, fel datblygiad plant, yn dibynnu ar iechyd da, teimlo wedi'u caru ac yn ddiogel, diogelwch, chwarae, dysgu a rhyngweithio a pherthnasoedd.

Ffigur 1.2: Y profiadau a'r amgylcheddau sydd eu hangen ar blant ar gyfer y dechrau gorau mewn bywyd



Nodyn: Dim ond yn Saesneg y mae'r ffigur ar gael

Ffynhonnell: Saesneg yn unig. [Dull Iechyd Cyhoeddus o Gefnogi Rhieni](#)

Mae [Rhaglen Plant Iach Cymru](#) yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi iechyd a lles pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar (hynny yw, hyd at 7 oed). Fel y 1,000 Diwrnod Cyntaf, mae'n seiliedig ar dystiolaeth bod buddsoddi ym mlynnyddoedd cynnar bywyd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar iechyd, datblygiad cymdeithasol ac addysgol plentyn a'i ganlyniadau hirdymor. Mae'n canolbwyntio ar gefnogi datblygiad plant drwy sgrinio, imiwneiddio a gwyliadwriaeth ^[troednodyn 2].

[2] Mae sgrinio yn canolbwyntio ar nodi materion penodol fel colli clyw neu oedi mewn datblygiad, ar adeg mewn amser, ac mae gwyliadwriaeth yn canolbwyntio ar fonitro datblygiad cyffredinol plentyn yn barhaus.

1.3. Polisiâu Blynyddoedd Cynnar

1.3.1. Y Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

Mae'r [Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar](#) yn dwyn ynghyd yr holl bolisiâu a rhaglenni sy'n ymwneud â chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar (gan gynnwys y Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg) o bob rhan o Lywodraeth Cymru. Ei nod yw rhoi'r "dechrau gorau mewn bywyd" i blant ac fel y mae'r [Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar](#) yn amlinellu, mae'n nodi sut y gall "lleoliadau gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin" ar gyfer plant 0 i 5 oed "helpu i feithrin sgiliau cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol babanod a phlant bach." 1.3.2. Llwybrau Datblygiadol 0-3

Mae'r [adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar](#) yn cynnwys fframwaith ansawdd, llwybrau datblygu, pecyn cymorth ymarfer myfyriol a threfniadau asesu ar gyfer plant o enedigaeth hyd at 3 oed. Mae'r Llwybrau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ddatblygiad plant a sut y gellir eu cefnogi orau "i dyfu a datblygu mewn ffyrdd sy'n addas ar gyfer eu cam datblygiad."

1.3.2. Dechrau'n Deg

Nod rhaglen Dechrau'n Deg yw gwella canlyniadau i blant o dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig (gyda rhywfaint o ddarpariaeth allgymorth i deuluoedd y tu allan i'r ardaloedd hyn) drwy liniaru effeithiau tlodi ar ddatblygiad cynnar a llesiant. Ei amcanion yw:

- sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd
- trechu tlodi ac amddifadedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal plant o ansawdd uchel a lleoedd a lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg

Mae'r rhaglen yn cynnig:

- gofal plant rhan-amser o ansawdd wedi'i ariannu – 12.5 awr yr wythnos i blant 2 oed yn ystod y tymor
- ymweliadau iechyd gwell, gyda llwythi achosion llai ac ymweliadau amlach na'r gwasanaeth cyffredinol
- cymorth rhianta, gyda mynediad at raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac arweiniad anffurfiol
- cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn seiliedig ar adnabod yn gynnar ac ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer anghenion cyfathrebu

(Addaswyd o [Raglen Dechrau'n Deg](#) ac [Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn raddol](#)).

Ym mis Medi 2022, ehangwyd y rhaglen yn raddol. Roedd y cam cyntaf yn canolbwyntio ar bob un o'r 4 elfen o'r rhaglen, ac roedd yr ail gam, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2023, yn canolbwyntio ar ehangu gofal plant Dechrau'n Deg yng Nghymru.

1.3.3. Cynnig Gofal Plant Cymru

Nod [Cynnig Gofal Plant Cymru](#) yw helpu rhieni sy'n gweithio gyda chost gofal plant, gan gefnogi cyflogaeth rhieni. Mae'n cynnig i rieni sy'n gweithio (gan gynnwys y rhai hunangyflogedig) a rhieni mewn addysg ^[troednodyn 3] ledled Cymru, y mae eu plant yn 3 a 4 oed, hyd at 30 awr yr wythnos o addysg feithrin a gofal plant ^[troednodyn 4] wedi'i ariannu gan y llywodraeth, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Er mai'r prif nod yw galluogi rhieni a gofalwyr i ddychwelyd i'r gwaith a chynyddu eu hincwm gwario, nod y rhaglen yn ei chyfanrwydd yw cefnogi dysgu a datblygiad plentyn ([Y cynnig gofal plant i Gymru: canllawiau i awdurdodau lleol](#)).

1.3.4. Siarad Gyda Fi

[Siarad Gyda Fi](#) yw strategaeth Lleferydd, iaith a Chyfathrebu Llywodraeth Cymru. Ei nod yw gwella cymorth Lleferydd, iaith a Chyfathrebu i blant 0 i 4 oed 11 mis ac mae'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o Lleferydd, iaith a Chyfathrebu, adnabod yn amserol a mynediad at ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, datblygu'r gweithlu, ac ymgorffori Lleferydd, iaith a Chyfathrebu ar draws polisi.

1.4. Polisiâu Addysg

Mae [Cwricwlwm i Gymru](#) yn nodi gweledigaeth ar gyfer plant 3 i 16 oed ac mae'n ceisio sicrhau bod yr holl blant/dysgwyr yn dod yn ddinasyddion iach, ymgysylltiedig, mentrus a moesegol (a ddisgrifir fel y "pedwar diben"). Mae'n canolbwyntio ar sut mae dysgwyr yn datblygu, nid dim ond yr hyn y maent yn ei ddysgu ac mae'n ymgorffori gweledigaeth o ddatblygiad plant a phobl ifanc o ran twf gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol, moesegol a chorfforol. I gefnogi hyn, mae dysgu wedi'i drefnu'n chwe [Maes Dysgu a Phrofiad](#) (wedi'u talfyrru i 'Meysydd'): y Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd, a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae cefnogi cynnydd dysgwyr ym mhob un o'r meysydd hyn wrth wraidd y fframwaith. Mae datganiadau "yr hyn sy'n bwysig" yn canolbwyntio ar y "syniadau mawr" ym mhob maes ac mae "disgrifiadau dysgu" yn darparu arweiniad ar sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd ym mhob datganiad "yr hyn sy'n bwysig." Mae'r rhain wedi'u trefnu yn 5 cam cynnydd sy'n "cynnig cyfeirbwyntiau ar gyfer cyflymder cynnydd plant." Trafodir Cwricwlwm i Gymru ymhellach yn Adrannau 3 a 4.

[3] Rhaid i rieni fyw yng Nghymru a rhaid iddynt fod yn gyflogedig (neu'n hunangyflogedig) ac yn ennill o leiaf, ar gyfartaledd, yr hyn sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw; ar Dâl ac Absenoldeb Statudol (Absenoldeb Salwch, Mamolaeth, Tadolaeth, Rhiant, Profedigaeth neu Fabwysiadu) neu wedi cofrestru ar gwrs addysg bellach neu uwch sydd o leiaf 10 wythnos o hyd. Gall gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau (perthynas neu ffrind nad yw'n rhiant plentyn) wneud cais hefyd. Mae manylion llawn am y cynnig gofal plant a chymhwysra ar gael ar y dudalen we: [Cael hyd at 30 awr o ofal plant ar gyfer plant 3 a 4 oed](#)

[4] Mae gan bob plentyn hawl i addysg feithrin fel arfer o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Mae pob awdurdod lleol yn darparu o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg feithrin.

1.5. Polisiâu'r Gymraeg

I gefnogi nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#) yn nodi'r camau a gymerwyd i alluogi mwy o bobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae'n cynnwys ffocws ar ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar a sicrhau bod darpariaeth addysg statudol yn datblygu siaradwyr Cymraeg hyderus.

1.6. Datblygiad plant a nod ac amcanion yr adolygiad hwn

Nod pob un o'r rhaglenni a'r polisiâu hyn yw cefnogi datblygiad plant, sydd wedi'i ddisgrifio fel "y gyfres o newidiadau corfforol, synhwyraidd, ieithyddol, gwybyddol, emosiynol ac ymddygiadol sy'n digwydd mewn plentyn" o'i genhedlu i ddechrau bod yn oedolyn ([Fframwaith NYTH: adroddiad llawn](#), tudalen 30). Fodd bynnag, er cydnabod ei bwysigrwydd, ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio un diffiniad unigol o ddatblygiad plant ar draws ei gwahanol feysydd polisi, na set ganolog o fesurau y cytunwyd arnynt ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar. Dangosodd gwaith ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru fwch penodol mewn dangosyddion a mesurau datblygiad plant ar gyfer plant 2 i 11 oed. Yn benodol, mae ymwelwyr iechyd yn casglu data ar lefel poblogaeth yn 18 mis oed a thrwy'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) a'r Rhwydwaith Iechyd a Chyrhaeddiad Disgyblion Mewn Addysg Gynradd (HAPPEN), ac yn ddiweddarach Tystysgrifau Cyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) yn yr ysgol uwchradd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata safonedig eraill ar lefel poblogaeth yn cael eu casglu. Felly, fel yr amlinellir yn y fanyleb ar gyfer yr astudiaeth hon, nodau'r adolygiad hwn yw:

1. Cynhyrchu tystiolaeth ar bwysigrwydd dangosyddion a mesurau datblygiad plant a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid allanol a'r defnydd effeithiol ohonynt
2. Nodi a dogfennu dangosyddion a mesurau datblygiad plant a ddefnyddir ar gyfer plant 2 i 11 oed yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
3. Asesu'n feirniadol nodweddion dangosyddion a mesurau datblygiad plant a ddefnyddir ar gyfer plant 2 i 11 oed yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
4. Crynhoi tystiolaeth i ddarparu gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n diffinio datblygiad plant a'i gydrannau mewn gwahanol gyd-destunau

Nodau'r adolygiad hwn yw:

- cynnal cyfweiliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid allanol ar y defnydd o ddata datblygiad plant a'u rôl wrth werthuso polisiâu ar draws y llywodraeth
- cynnal adolygiad llenyddiaeth sy'n ystyried dangosyddion a mesurau a ddefnyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i asesu datblygiad plant ar gyfer plant 2 i 11 oed; mae hyn yn cynnwys dangosyddion a mesurau a ddefnyddir mewn llenyddiaeth ymchwil, gwasanaethau cyhoeddus a pholisi cyhoeddus
- nodi a dogfennu rhestr o ddiffiniadau o ddatblygiad plant a ddefnyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a'r elfennau sy'n ffurfio datblygiad plant

- dogfennu rhestr o offerynnau a ddefnyddir i asesu datblygiad plant 2 i 11 oed
- asesu'n feirniadol y mesurau a ddefnyddir i asesu datblygiad plant 2 i 11 oed, gan gynnwys dilysrwydd a dibynadwyedd mesurau, costau a heriau sy'n gysylltiedig â chasglu data, rhagfarnau, risgiau a chyfyngiadau posibl, a sut mae'r data yn cael eu defnyddio wrth lunio polisiau, gan gynnwys canlyniadau anfwriadol

1.7. Strwythur yr adroddiad hwn

Yn dilyn yr adran ragarweiniol hon:

- mae adran 2 yn trafod dull a methodoleg yr adolygiad
- mae adran 3 yn trafod canfyddiadau'r adolygiad mewn perthynas â phwysigrwydd dangosyddion a mesurau datblygiad plant a'r defnydd effeithiol ohonynt
- mae adran 4 yn asesu'n feirniadol nodweddion dangosyddion a mesurau yng ngoleuni canfyddiadau'r adolygiad
- mae adran 5 yn amlinellu casgliadau'r adolygiad

Mae rhestr lawn o ddangosyddion a mesurau datblygiad plant a nodwyd gan yr adolygiad wedi'i chynnwys yn yr atodiadau ac mae enghreifftiau wedi'u cynnwys yn Adrannau 3 a 4 o'r adroddiad.

2. Methodoleg

2.1. Cyflwyniad

Cafodd yr adolygiad cwmpasu ei lywio gan ddadansoddiad desg systematig o astudiaethau perthnasol, a ategwyd gan gyfweiliadau â rhanddeiliaid ac adolygiad desg o ddogfennau cefndir, i ddarparu mewnwelediad cyd-destunol sy'n benodol i Gymru. Er mwyn asesu dilysrwydd y canfyddiadau, cynhaliwyd gweithdy rhanddeiliaid wedyn i archwilio canlyniadau rhagarweiniol yr adolygiad yn feirniadol. Roedd hyn yn gyfle pwysig i fireinio a datblygu'r canfyddiadau ymhellach.

2.2. Cyfweiliadau ac adolygiad desg cychwynnol

Cafodd deuddeg o randdeiliad eu cyfweld ar-lein (drwy MS Teams). Cafodd rhanddeiliaid eu nodi a'u cytuno drwy drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ac roeddent yn cynnwys 11 aelod o staff o Lywodraeth Cymru ac 1 o lechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y cyfweleion yn cynrychioli: Iechyd; Dechrau'n Deg; Ymchwil Addysg; Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar; Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu; Cwricwlwm i Gymru; Safonau a Gwybodaeth Ysgolion; a Thegwch mewn Addysg. Mae copi o'r rhestr gyfweld wedi'i gynnwys yn Atodiad B.

Rhannodd Llywodraeth Cymru ddogfennau polisi ac ymchwil yr oeddent wedi'u nodi fel rhan o'r gwaith cwmpasu i lywio comisiynu'r adolygiad hwn. Gwahoddwyd rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld hefyd i nodi dogfennau polisi ac ymchwil yr oeddent yn teimlo eu bod yn berthnasol. Adolygwyd y rhain i ddarparu mewnwelediad cyd-destunol sy'n benodol i Gymru ar gyfer yr adolygiad cwmpasu.

2.3. Adolygiad desg systematig

Er mwyn nodi a dogfennu dangosyddion a mesurau datblygiad plant a ddefnyddir ar gyfer plant 2 i 11 oed yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn y llenyddiaeth ymchwil, gwasanaethau cyhoeddus a pholisi cyhoeddus, cynhaliwyd chwiliad systematig o'r llenyddiaeth. Dyma'r termau chwilio a ddefnyddiwyd: childhood development OR child development AND measures OR indicators AND review. Defnyddiwyd y termau chwilio i chwilio Google.co.uk, Google Scholar, JSTOR, Oxford Academic, PubMed - y Llyfrgell Feddygaeth Genedlaethol a Chyfnodolion Sage. Defnyddiwyd dau amrywiad fformatio ar yr uchod wrth chwilio Google.co.uk a PubMed - y Llyfrgell Feddygaeth Genedlaethol, gan eu bod yn fwy effeithiol^[5]. Cyflwynir canlyniadau'r chwiliadau yn Ffigur 2.1. Unwaith y barnwyd bod dirlawnder^[6] wedi'i gyrraedd, gyda chwiliadau pellach yn methu cynhyrchu gwybodaeth newydd neu berthnasol, ataliwyd y broses.

[5] Roedd hyn yn cynnwys (child development OR childhood development AND measures) OR (indicators AND (review) AND (child development OR childhood development) (measures OR indicators) review.

[6] Mae dirlawnder yn gysyniad a ddefnyddir mewn ymchwil ansoddol i ddisgrifio sefyllfa lle nad oes syniadau neu themâu newydd yn cael eu nodi, sy'n golygu bod casglu a/neu ddadansoddi rhagor o ddata yn ddiangen.

Dim ond un astudiaeth a ganfuwyd yn y chwiliad cychwynnol a oedd yn canolbwyntio ar fesur datblygiad plant mewn cyd-destun dwyieithog. Felly, yn dilyn y chwiliadau cychwynnol, gwnaed chwiliad ychwanegol pellach i nodi astudiaethau a oedd yn canolbwyntio ar genhedloedd dwyieithog i'w cymharu â Chymru. Roedd hyn yn cynnwys chwiliadau Google gyda'r term: (child development OR childhood development) (measures OR indicators) (bilingual country) review. Nododd hyn ddwy astudiaeth arall a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad.

2.3.1. Meini prawf sgrinio a chynhwysiant


Yn seiliedig ar yr adolygiad o'r teitl, y crynodeb a'r dogfennau llawn, dim ond pan oeddent yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant canlynol y cafodd astudiaethau eu cynnwys, sef bod yr eitem:

- yn disgrifio a/neu'n gwerthuso'r defnydd o ddangosyddion a mesurau datblygiad plant yn y meysydd polisi/cyd-destunau o ddiddordeb i'r astudiaeth (hynny yw, y blynyddoedd cynnar, addysg, iechyd a/neu wasanaethau plant)
- yn cynnwys trafodaeth ar fesurau neu ddangosyddion datblygiad plant mewn un o wledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)
- wedi'i chyhoeddi o fewn y 15 mlynedd diwethaf (o 2010 ymlaen)
- yn astudiaeth ddisgrifiadol sy'n nodi, mapio a disgrifio gwahanol ddangosyddion a mesurau datblygiad plant, neu
- yn astudiaeth werthusol sy'n arfarnu'n feirniadol gwahanol ddangosyddion a mesurau datblygiad plant,


At hynny, os na chafodd un neu ragor o'r meini prawf cynhwysiant isod eu bodloni, yna cafodd yr astudiaeth ei heithrio. Y meini prawf cynhwysiant pellach hyn oedd bod yr eitem:

- wedi'i chyhoeddi gan sefydliad credadwy; cyfnodolyn a adolygwyd gan gymheiriaid, asiantaeth y llywodraeth neu sefydliad academiaidd
- wedi disgrifio'r canfyddiadau a'r casgliadau yn glir
- wedi cyflwyno data sy'n cefnogi'r canfyddiadau a'r casgliadau

Ffigur 2.1: Y Broses Sgrinio



Ffigur 2.2: Crynodeb o'r chwiliadau a'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad neu sydd wedi'u heithrio ohono



*Defnyddiwyd y termau chwilio (childhood OR child) development AND measures OR indicators AND review a'r term chwilio (child development) OR (child development) AND (measures) OR (indicators) AND (review)..

** Term chwilio wedi'i newid i: (child development OR childhood development) (measures OR indicators) review.

*** Termau chwilio ychwanegol wedi'u targedu.

Addaswyd o: [PRISMA 2020 statement: an updated guideline for reporting systematic reviews.](#)

2.3. Echdynnu a dadansoddi data

Adolygwyd yr eitemau a oedd wedi'u cynnwys echdynnu a dadansoddi data perthnasol. Nod hyn oedd:

- harneisio cryfderau Deallusrwydd Artiffisial (AI) wrth adolygu deunydd mewn ffordd gyflym, strwythuredig a chyson a
- chryfderau ymchwilydd dynol mewn meysydd fel dadansoddi beirniadol a gwirio cywirdeb dehongli

Felly, datblygwyd dull hybrid o echdynnu a dadansoddi data, a oedd yn cynnwys tri cham:

Cam 1. Mae ChatGPT yn adolygu ac yn echdynnu gwybodaeth berthnasol o'r adroddiad ymchwil, yn seiliedig ar gwestiynau ymchwil wedi'u diffinio ymlaen llaw

Cam 2. mae ymchwilydd dynol yn adolygu echdyniad Chat GPT (gweler Cam 1) ac yna'n adolygu'r adroddiad ymchwil i wirio ac asesu'r atebion i'r cwestiynau ymchwil yn annibynnol, gan ystyried yr adroddiad ac allbwn cychwynnol ChatGPT

Cam 3. mae'r allbwn terfynol yn synthesis o adolygiad dynol a ChatGPT o'r adroddiad

2.5. Gweithdy rhanddeiliaid

Cynhaliwyd gweithdy rhanddeiliaid ar-lein ym mis Medi 2025 i werthuso a thrafod y canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg o'r data a gasglwyd o'r cyfweiliadau a'r adolygiad desg systematig. Roedd y gweithdy yn cynnwys 21 o staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio yn y meysydd polisi canlynol: Iechyd; ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Dechrau'n Deg; ymchwil y Blynyddoedd Cynnar; Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar; Lleferydd, iaith a chyfathrebu; Cwricwlwm i Gymru; Safonau a gwybodaeth ysgolion a Thegwch mewn Addysg.

2.6. Cryfderau a chyfyngiadau'r sylfaen dystiolaeth

Nododd yr adolygiad o'r strategaeth chwilio amrywiaeth o lenyddiaeth a oedd yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau ($n=61$) yn astudiaethau disgrifiadol a nododd neu fapio gwahanol ddangosyddion datblygiad plant ond nad oeddent yn gwerthuso'r mesurau o ran eu hansawdd seicometrig (mae ansawdd seicometrig yn disgrifio nodweddion offeryn asesu seicolegol, fel ei ddibynadwyedd a'i ddilysrwydd). Dim ond nifer gymharol fach o astudiaethau gwerthuso ($n=11$) a oedd yn arfarnu ansawdd seicometrig y mesur a drafodwyd ganddynt yn feirniadol. Roedd hyn yn ei dro yn golygu bod data cyfyngedig o'r adolygiad desg ar ddilysrwydd a dibynadwyedd gwahanol ddangosyddion a mesurau datblygiad plant. Yn ogystal â'r nifer fach o astudiaethau beirniadol / gwerthusol, prin oedd yr astudiaethau a nodwyd gan y chwiliad sy'n ystyried y defnydd o fesurau datblygiad plant mewn:

- gwledydd dwyieithog
- gwledydd Ewropeaidd y tu allan i Loegr (roedd llawer ohonynt o wledydd y Gorllewin Saesneg eu hiaith, yn fwyaf nodedig UDA, ac yna Canada ac Awstralia)

At hynny, mae'n bwysig nodi:

- o fewn y llenyddiaeth a adolygwyd, fel y dengys Tabl 3.1, roedd grwpio gwahanol fathau o newid yn feysydd ac enwi (cyfundrefn enwi'r ^[troednodyn 7]) meysydd hynny yn wahanol
- fel y dengys y gynrychiolaeth fel diagram Venn yn Ffigur 3.1., mae pob maes yn gydgyssylltiedig. Er enghraifft, mae datblygiad gwybyddol yn sail i ddatblygiad corfforol, cymdeithasol-emosiynol ac iaith a chyfathrebu, ond mae hefyd yn cael ei alluogi gan ddatblygiad corfforol, cymdeithasol-emosiynol ac iaith a chyfathrebu ^[Troednodyn 8]. O ganlyniad, mae grwpio gwahanol fathau o newid yn feysydd, a llunio ffiniau rhwng meysydd, braidd yn artiffisial
- roedd pwysigrwydd pob maes, a'r graddau y mae newid ym mhob maes yn cael ei fesur, yn wahanol o fewn y tri phrif faes polisi a ystyriwyd gan yr adolygiad hwn (y blynyddoedd cynnar, iechyd ac addysg). Nododd rhanddeiliaid hefyd fod pwysigrwydd a mesur newid ym mhob maes hefyd wedi newid dros amser, ym mhob maes polisi
- mae rhai offer yn anelu at fesur datblygiad ym mhob un o'r pedwar maes, ac mae eraill yn mesur datblygiad mewn un (neu fwy) o'r meysydd yn unig

[⁷] 'A system of names for things, particularly a system of names, terms, or symbols used in a particular field of science' ([Merriam-Webster](#)).

[⁸] Er enghraifft, fel y mae [Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar: Llwybrau datblygu 0 i 3](#) yn nodi, "Mae gweithgarwch corfforol yn cynnig llawer o fanteision i'r plentyn sy'n datblygu. Mae cysylltiad cryf rhwng symud a gwybyddiaeth a dysgu".

Tabl 3.1: Enghreifftiau o wahaniaethau mewn grwpiau a chyfundrefn enwi datblygiad plant a ddefnyddir gan fesurau / fframweithiau dethol

Meta feysydd Enghreifftiau	Corfforol	Gwybyddol	Cymdeithasol- emosiynol	Iaith a chyfathrebu
Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar: Llwybrau datblygu 0 i 3 (Cymru) a Galluogi Dysgu (Cwricwlwm i Gymru)	"Datblygiad corfforol"	"Archwilio" [Troednodyn9]	"Perthyn" a "Llesiant"	"Cyfathrebu"
Holiaduron Oedran a Chyfnodau (ASQ) Trydydd Rhifyn	Sgiliau "motor bras" a "motor manwl"	"Datrys problemau"	"Personol – cymdeithasol"	"Sgiliau cyfathrebu"
Proffil Cyfnod Sylfaen y Blynnyddoedd Cynnar (EYFSP) (Lloegr)	"Datblygiad corfforol"	"Llythrennedd" a "rhifedd"	"Datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol"	"Cyfathrebu ac iaith"
Cyfrifiad Datblygu Cynnar Awstralia	"Iechyd a llesiant corfforol"	"Iaith a sgiliau gwybyddol"	"Aeddfedrwydd emosiynol" a "Chymhwysedd cymdeithasol"	"Sgiliau cyfathrebu a gwybodaeth gyffredinol"
Gwerthusiad Rhieni o Statws Datblygiadol – Diwygiedig (PEDS-R)	"Motor bras, motor manwl a chydsymud"	"Galluoedd meddwl, rhesymu, datrys problemau, dysgu"	"Ymddygiad, anian, sgiliau cymdeithasol personol a rheoleiddio emosiynol"	"Eglurder lleferydd, geirfa, defnydd brawddegau, a dealltwriaeth o gyfarwyddiadau"
Graddfeydd Bayley ar gyfer Datblygiad Babanod a Phlant Bach (BSID-III/BSID 4)	"Sgiliau motor manwl a motor bras"	"Sylw, cof, datrys problemau, a sefydlogrwydd gwrthrych"	"Ymgysylltu cymdeithasol, mynegiant emosiynol, ac ymddygiad ymaddasol"	"Cyfathrebu derbyngar a mynegiannol"

[9] Pwysleisiodd y cyfweleion fod datblygiad gwybyddol (fel yr amlinellwyd uchod) yn sail i'r holl feysydd datblygu ac, yn benodol mewn perthynas â Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, nad yw "archwilio" yn gyfystyr â datblygu gwybyddol; fe'i disgrifir fel rhywbeth sy'n ymwneud â "dysgu" a chaffael "sgiliau [a] gwybodaeth", ac felly mae'n frasmcan o'r maes datblygu gwybyddol.

Denver II (Prawf Sgrinio Datblygiadol Denver II)	“Sgiliau motor manwl a motor bras”	“Ymddygiad ymaddasol a datrys problemau”	“Hunanofal a chwarae gydag eraill”	“Cyfathrebu derbyngar a mynegiannol”
--	------------------------------------	--	------------------------------------	--------------------------------------

3.1.1. Dau Gysyniad o Ddatblygiad Plant: Modelau Llinol a Lluosogol

Gellir deall datblygiad plant mewn termau llinol, lle (oni bai bod problem) disgwylir i blant basio drwy ddilyniant cyffredinol o gamau. Mae'r cysyniad normadol hwn o ddatblygiad plant yn caniatáu amrywiad naturiol, ond mae'n seiliedig ar y rhan fwyaf o blant yn dilyn llwybr tebyg. Mewn cyferbyniad, mae modelau lluosogol yn galluogi llwybrau lluosog (gan gynnwys aflinol). Mae'r gwahaniaethau rhwng y ddau gysyniad gwahanol o ddatblygiad plant yn cael eu crynhoi yn Nhabl 3.2. Fel yr amlinellwn isod, mae gan y gwahaniaeth hwn oblygiadau pwysig o ran sut y mae cynnydd plant yn cael ei asesu a'i gefnogi ar draws meysydd polisi iechyd, addysg, a'r blynyddoedd cynnar.

Os yw datblygiad plant yn dilyn dilyniant llinol o newidiadau y disgwylir i'r rhan fwyaf o blant basio drwyddynt, mae'n bosibl diffinio'r norm, gan ddisgrifio'r hyn sy'n arferol neu'n nodweddiadol. Drwy fesur newid mewn datblygiad mewn gwahanol feysydd ar draws poblogaeth (gan ddefnyddio offer safonedig a samplau cynrychioladol) gellir mapio dosbarthiad mesuriadau i greu norm, gan nodi pa newidiadau fyddai'n ddisgwyliedig pryd, ymhlith y rhan fwyaf o blant. Gellir defnyddio'r norm hwn wedyn fel meincnod y gellir asesu datblygiad plentyn unigol neu grŵp o blant yn ei erbyn. Mae'r rhain yn aml yn cael eu disgrifio fel “cerrig milltir” datblygiadol y byddai disgwyl i'r rhan fwyaf o blant eu pasio oni bai, er enghraifft, bod ganddynt anghenion sy'n arafu neu'n rhwystro eu datblygiad.

Nid yw model llinol o ddatblygiad yn awgrymu bod pob plentyn yn datblygu ar yr un gyfradd, oni bai bod problem. Bydd dosbarthiad y mesuriadau a ddefnyddir i greu normau, yn adlewyrchu amrywiad naturiol mewn poblogaeth. Fodd bynnag, yn y gweithdy rhanddeiliaid, er nad oedd normau a cherrig milltir wedi'u diystyru, roedd pryder y gellid eu defnyddio mewn ffordd anhyblyg neu ddeuaidd i farnu datblygiad plentyn unigol. Er enghraifft, gwelwyd bod amrywiad unigol yn golygu, er y gellid ystyried amrediad, fel yr amrediad rhyngchwartel rhwng y chwarter uchaf a'r chwarter isaf, o werthoedd yn norm, nid oedd cwmpo y tu allan i'r norm o reidrwydd yn achos pryder.

Tabl 3.2: Y modelau llinol a lluosogol o ddatblygiad plant

Dimensiwn	Y model llinol	Y model lluosogol
Gwreiddiau athronyddol	Seicoleg ddatblygiadol	Paradeimau ecolegol, cymdeithasol-ddiwylliannol, niwroamrywiaeth
Rhagdybiaeth Sylfaenol	Mae datblygiad 'normal' yn llinol ac yn dilyn dilyniant cyffredinol o gamau	Mae pob plentyn yn unigryw ac mae datblygiad yn dilyn llwybrau amrywiol lluosog
Diben Mesur	Nodi oedi neu wyriad oddi wrth y norm	Cefnogi dilyniant a chynhwysiant unigol
Barn ar wyro oddi wrth norm	Diffyg / oedi	Gwahaniaeth / amrywiaeth
Cyd-destun Nodweddiadol	Sgrinio yn y blynyddoedd cynnar gan wasanaethau iechyd	Addysg gydag addysgeg gynhwysol
Goblygiadau o ran polisi ac enghreifftiau yng Nghymru	Cerrig milltir safonedig, fel Plant Iach Cymru, SOGS	Fframwaith dilyniant hyblyg, fel Cwricwlwm i Gymru a Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar

Roedd y ffocws ar amrywiad unigol yn golygu bod “cerrig milltir” datblygiadol (y pethau y gall y rhan fwyaf o blant eu gwneud erbyn oedran penodol) neu ganraddau taldra a phwysau yn cael eu disgrifio gan randdeiliaid (yn y gweithdy) fel pethau y gellid eu deall orau fel “pwyntiau cyfeirio”. Sylwodd rhanddeiliaid (yn y gweithdy) eu bod yn galluogi cymharu a phwysleisiwyd pwysigrwydd hyn i, er enghraifft, helpu i nodi anghenion heb eu diwallu. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhanddeiliaid (yn y gweithdy) yn gyson fod angen gofal i beidio â lleihau plentyn unigol i “fagiau o fesurau canlyniadau” (fel y dywedodd un rhanddeiliad). Teimlwyd bod gormod o ffocws ar a oedd plant wedi pasio cerrig milltir penodol ai peidio yn creu risgiau fel:

- meddylfryd rhestr wirio wrth asesu datblygiad plant, sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei fesur, yn hytrach na'r hyn sy'n bwysig, ac felly y gallai safoni mesur nifer fach o ddangosyddion niweidio (yn hytrach na helpu) datblygiad plant, gan y gallai ymarferwyr ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cael ei fesur, yn hytrach na'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn ac ar ei gyfer
- barnau du neu wyn yn seiliedig ar a oedd plentyn wedi cyrraedd lefel benodol ai peidio, gan guddio'r amrywioldeb naturiol eang yn natblygiad plant, a'r syniad o gontinwmm datblygiadol
- mesur datblygiad mewn gwahanol feysydd ar wahân i'w gilydd, a all olygu bod y rhyng-gysylltiad rhwng meysydd yn cael ei golli

Yn fwy sylfaenol, awgrymodd rhai rhanddeiliaid yn y gweithdy hefyd fod datblygiad pob plentyn yn unigryw ac y gallent fod yn wahanol nid yn unig o ran cyflymder y newid (sy'n gyson â model llinol) ond hefyd o ran y dilyniant a/neu natur y newid. Yn lle'r hyn a ystyriwyd fel model datblygu "lleihaol" llinol, dadleuodd rhai rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr astudiaeth dros ddull mwy cyfannol sy'n canolbwyntio ar y person. Roedd hyn yn pwysleisio pwysigrwydd gweld pob plentyn fel person cyfan sy'n datblygu yn dilyn ei lwybr unigryw eu hun. Roedd hyn yn cynrychioli cysyniad mwy lluosogol o ddatblygiad. Gwelwyd bod Cwricwlwm i Gymru, a drafodir ymhellach isod, yn ymgorffori ffocws ar yr unigolyn a datblygiad fel continwwm.

Fel yr amlinellwn isod, yn y drafodaeth ar y Cwricwlwm i Gymru, mae gan y gwahanol gysyniadau hyn o ddatblygiad plentyndod oblygiadau pwysig ar gyfer sut mae polisïau, rhaglenni ac ymyriadau yn cael eu gwerthuso. Os yw datblygiad yn cael ei ddeall fel proses linol, lle mae oedi neu wahaniaeth yn achos pryder, mae'n gymharol hawdd gosod targedau yn seiliedig ar gerrig milltir datblygiadol sy'n gysylltiedig ag oedrannau penodol. Mewn cyferbyniad, lle mae datblygiad yn cael ei ddeall mewn termau lluosogol, ni ellir defnyddio cerrig milltir datblygiadol, sy'n gysylltiedig ag oedrannau penodol, yn hawdd i osod targedau ar lefel unigolyn, system neu boblogaeth. Mae cymariaethau rhwng y cynnydd a wneir gan wahanol grwpiau o blant (fel y rhai sy'n cael budd o ymyrraeth neu raglen a'r rhai nad ydynt) hefyd yn dod yn fwy cymhleth.

Serch hynny, er y gallai llwybr pob plentyn unigol fod yn wahanol, pwysleisiwyd hefyd gan rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr astudiaeth nad oedd hyn yn golygu bod pob llwybr mor wahanol, fel ei bod yn amhosibl cyffredinolli am y llwybrau y mae'r rhan fwyaf o blant yn eu dilyn a'r cyflymder y maent yn symud ymlaen ar hyd y rhain. Yn wir, mae'r gallu i nodi'r newidiadau y mae'r rhan fwyaf o blant yn eu profi yn sail i'r camau dilyniant sy'n disgrifio'r ffyrdd y disgwylir i ddysgwyr symud ymlaen drwy gydol y continwwm dysgu (yn y Cwricwlwm i Gymru) a'r cerrig milltir datblygiadol a ddefnyddir gan iechyd (yn rhaglen Plant Iach Cymru).

At hynny, fel y mae tabl 3.2. yn ei amlinellu, mae'r model lluosogol yn pwysleisio gwahaniaeth ac amrywiaeth, yn hytrach na diffyg neu oedi. Roedd nifer o swyddogion Llywodraeth Cymru a gyfrannodd at yr astudiaeth, a oedd yn eirioli dros ddull mwy lluosogol, yn bryderus iawn am yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn ddiffygion neu oedi mewn meysydd fel lleferydd iaith a chyfathrebu neu ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant. Gwnaethant awgrymu, er y gall llwybrau datblygiadol fod yn wahanol, ni fydd pob llwybr datblygiadol yn galluogi'r un lefel o weithredu ^[Troednodyn 10], ac felly nid yw pob llwybr yn cael ei ystyried yr un mor ddymunol, gan y gall rhai gyfyngu ar allu plentyn ac oedolion yn ddiweddarach i fyw'n annibynnol, ymgysylltu'n gymdeithasol, gweithio, dysgu, a gofalu amdanynt eu hunain.

[10] Mae gweithredu yn disgrifio pa mor effeithiol y gall person fyw'n annibynnol, ymgysylltu'n gymdeithasol, gweithio, dysgu, a gofalu amdanynt eu hunain

3.1.2. Mesur datblygiad plant ar lefel unigol a phoblogaeth

Yn rhannol, mae'n ymddangos bod y tensiynau rhwng cysyniadau llinol a lluosogol o ddatblygiad yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn graddfa. Er enghraifft, ein dehongliad o'r hyn a ddywedwyd yn ystod cyfweiliadau, oedd bod ar lefel:

- **plentyn unigol**, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr o'r farn mai dull sy'n canolbwyntio mwy ar y person, cyfannol, lle roedd offer yn cefnogi ac yn llywio barn broffesiynol, yw'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o fesur a chefnogi datblygiad plant
- **poblogaeth, neu system**, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr o'r farn mai mesurau safonedig a chymhariaeth â chanlyniadau diffiniedig, yn unol â chysyniad mwy llinol o ddatblygiad, oedd y ffyrdd mwyaf priodol ac effeithiol o fesur datblygiad plant. Yn wir, mae'n anodd dychmygu sut y gellid mesur datblygiad plentyndod yn ystyrlon ar lefel poblogaeth neu system, pe bai datblygiad pob plentyn yn cael ei ystyried yn unigryw ac yr un mor ddilys.

3.1.3. Sgrinio neu wylidwriaeth

Yn rhannol, mae'n ymddangos bod y tensiynau rhwng cysyniad llinol a lluosogol hefyd yn adlewyrchu gwahanol ddibenion mesur. Er enghraifft, gwelwyd (gan gyfweleion) bod adnabod neu roi diagnosis o faterion penodol, fel colli clyw, oedi datblygiadol neu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn gofyn am gymharu â norm. Felly, pan fydd diben mesur yn golygu sgrinio, nodi materion penodol, fel colli clyw neu oedi datblygiadol, ar adeg mewn amser, mae cysyniad mwy llinol o ddatblygiad plentyndod, gyda'i bwyslais ar nodi diffygion neu oedi mewn datblygiad, yn aml yn briodol. Er, fel y nodwyd, nid yw hyn heb risg, o ystyried er enghraifft, peryglon barnau sy'n rhy fecanyddol neu ddeuaidd (du neu wyn). Mewn cyferbyniad, pan fydd y diben yn golygu gwyliadwriaeth a monitro datblygiad cyffredinol y plentyn yn barhaus, sydd fel arfer yn cael ei wneud ar lefel plentyn unigol, mae cysyniad mwy lluosogol o ddatblygiad plentyndod, gyda'i bwyslais ar gefnogi dilyniant a chynhwysiant unigol, yn gyffredinol yn fwy priodol.

Gall y gwahaniaethau mewn dibenion mesur datblygiad plant ar lefel unigol a phoblogaeth greu tensiynau. Fel yr amlinellwn yn Adran 4, bwriadwyd i offer safonol, fel yr [Amserlen Sgiliau Tyfu](#) (SOGS) gael ei ddefnyddio gan Ymwelydd Iechyd, i "lywio barn broffesiynol" (fel y dywedodd un rhanddeiliad) ynghylch y ffordd orau o gefnogi plentyn unigol a'i deulu fel rhan o Raglen Plant Iach Cymru. Fodd bynnag, adroddwyd, er eu bod yn cael eu defnyddio ar draws poblogaethau, roedd y defnydd anghyson o SOGS, a oedd yn llai o broblem ar lefel plentyn unigol, yn golygu na ellid ei ddefnyddio i gynhyrchu data cadarn ar ganlyniadau datblygiadol plant ar lefel ranbarthol neu system a allai lywio comisiynu neu werthuso gwasanaethau.

Gwahanol fodolau o ddatblygiad plant ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad?

Mae hefyd yn bosibl y gallai'r cysyniad o ddatblygiad plant a ddefnyddir fod yn wahanol, yn dibynnu ar y maes datblygiad plant sy'n cael ei ystyried. Er enghraifft:

- mae twf corfforol plant ^[Troednodyn11] fel newidiadau mewn taldra a phwysau, yn cael ei ddeall fel proses ffisiolegol yn bennaf, er ei bod yn dibynnu ar ffactorau amgylcheddol fel cael maeth digonol. Yn hynny o beth, mae'r newidiadau hyn fel arfer yn digwydd mewn patrwm cymharol ragweladwy, yn enwedig yn gynnwys mewn bywyd, ac felly'n cael eu cysyniadu mewn termau mwy llinol a normadol
- mae newidiadau mewn datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn cael eu deall fel canlyniad y cydadwaith dynamig rhwng prosesau amgylcheddol — fel profiadau o chwarae, dysgu a gofal — a newidiadau corfforol a niwrolegol fel datblygiad ac aeddfedu'r ymennydd yn y blynyddoedd cynnar ^[Troednodyn12]. Yn hynny o beth, mae datblygiad yn llai rhagweladwy ac yn cael ei ddeall mewn ffyrdd mwy lluosogol

Felly, mae'r graddau y mae gwahaniaethau mewn twf neu ddatblygiad yn cael eu priodoli i achosion corfforol fel datblygiad yr ymennydd ac aeddfedu niwral a'r graddau y maent yn cael eu priodoli i ffactorau amgylcheddol, fel ansawdd profiadau plentyndod cynnar o brofiadau chwarae, dysgu a gofalu, hefyd yn ystyriaeth bwysig. Mae'n fwy tebygol y bydd y cyntaf yn cael ei ddeall mewn termau llinol a normadol, gyda gwyrdd oddi wrth hyn yn cael ei ddeall yn nhermau diffyg ac oedi mewn datblygiad ffisiolegol. Ac mae'r olaf yn fwy tebygol o gael ei ystyried mewn termau mwy lluosogol, gan fod amgylcheddau yn wahanol.

Fodd bynnag, nododd yr adolygiad sawl enghraifft nad oeddent yn cyd-fynd yn daclus â'r fframwaith hwn. Er enghraifft:

- nid yw'n hysbys beth sy'n achosi cyflyrau niwroddatblygiadol, fel awtistiaeth. Credir bod ganddynt elfen genetig, ac er bod achosion sy'n gysylltiedig â phrofiadau plentyndod cynnar, fel gwahanol arddulliau rhianta wedi'u diystyru, gall ffactorau amgylcheddol hefyd gyfrannu ([Beth yw awtistiaeth?](#)). Serch hynny, mae niwroamrywiaeth yn gysyniad lluosogol o ddatblygiad. Er ei fod yn dal i awgrymu gwahaniaeth o'r norm, gan mai niwronodweddiadol yw'r niwroteip mwyaf cyffredin, mae'n pwysleisio'r gwahaniaethau rhwng niwroteipiau a'r cysyniad o lwybrau datblygiadol gwahanol ond cyfartal ar gyfer plant niwronodweddiadol a niwrowahanol
- Gall anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu fod o ganlyniad i wahaniaethau mewn datblygiad corfforol a/neu wahaniaethau mewn amgylcheddau. Gall y rhyngweithio rhwng anghenion datblygiadol sylfaenol, fel anhwylder iaith datblygiadol, cyflyrau, fel awtistiaeth neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) a/neu'r amgylchedd i gyd fod yn bwysig. Felly, gellir deall gwahanol fathau o anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu mewn termau mwy llinol neu fwy lluosogol, yn dibynnu ar, er enghraifft, a yw'r achos yn anhwylder datblygiadol sy'n gofyn am gefnogaeth barhaus

[11] Mae "twf" yn cyfeirio at newidiadau meintiol, mesuradwy mewn maint neu nifer, fel taldra, pwysau, ac mae "datblygiad" yn cyfeirio at newidiadau ansoddol, swyddogaethol fel gwelliannau mewn galluoedd, sgiliau, neu fel sgiliau motor, galluoedd gwybyddol, neu reoleiddio emosiynol. Mae'r newidiadau corfforol fel cynnydd mewn taldra a phwysau yn agweddau pwysig ar ddatblygiad plentyndod ac mae mesur y rhain yn rhan allweddol o raglenni sy'n monitro ac yn cefnogi datblygiad plentyndod fel [Rhaglen Plant Iach Cymru](#).

[12] Datblygiad yr ymennydd, yn enwedig y cortecs cyndalcennol a'r system limbic, yw'r sylfaen gorfforol allweddol ar gyfer twf emosiynol a chymdeithasol. Wrth i'r cortecs cyndalcennol aeddfedu, mae hunanreolaeth plant yn cynyddu, ac maent yn dechrau deall safbwyntiau eraill. Yn y cyfamser, mae aeddfedu'r amygddala a'r hippocampus yn galluogi emosiynau mwy cymhleth, cof emosiynol, ac empathi. Mae prosesau fel tocio synaptig a myelineiddio yn gwneud cyfathrebu'r ymennydd yn gyflymach ac yn fwy effeithlon, gan gefnogi rheoleiddio emosiynol, sylw, a dealltwriaeth gymdeithasol (Thompson a Lagattuta, 2006).

gan therapydd iaith a lleferydd ^[Troednodyn13] neu a yw'n angen byrhoedlog a achosir gan ffactorau amgylcheddol, y gellir ei ddatrys drwy newid yr amgylchedd (e.e. drwy ryngweithiadau o ansawdd uchel mewn amgylcheddau cyfoethog o ran cyfathrebu).

3.1.4. Symud tuag at fodel mwy lluosogol o ddatblygiad plant

Yng Nghymru, nododd ein dadansoddiad o gyfweiliadau a'r trafodaethau yn y gweithdai i randdeiliaid fod symud wedi bod i ffwrdd o'r model llinol tuag at fodelau mwy lluosogol o ddatblygiad plant, gyda mesur yn erbyn camau datblygu, sy'n cael eu trin fel "pwyntiau cyfeirio" yn hytrach na "cherrig milltir". Yn y cysyniad hwn o ddatblygiad plant, ystyrir bod amrywiad o ran cyflymder datblygiad a hefyd o ran dilyniant a/neu natur newid yn naturiol, ac nid yw o reidrwydd yn achos pryder (ystyrir ei fod yn wahaniaeth yn hytrach na diffyg neu oedi). Er enghraifft, nododd rhanddeiliaid (a gyfrannodd at yr astudiaeth) y gall llwybrau datblygiadol plant gynnwys arosfannau, gwyradau a newidiadau mewn cyflymder. Mae'r newid hwn yn gliraf mewn addysg ond mae hefyd yn amlwg mewn dulliau o wylidwriaeth ym maes iechyd a'r blynyddoedd cynnar, ac fel y mae'r testun mewn blwch isod yn dangos, mae hyn yn unol â dulliau eraill sy'n ceisio creu cymdeithas fwy cynhwysol.

Amrywiaeth, gwahaniaeth a chynhwysiant

Mae'r newid tuag at gysyniadau mwy lluosogol o ddatblygu, yn unol â modelau eraill sy'n hyrwyddo cynhwysiant a ffocws ar wahaniaeth ac amrywiaeth, yn hytrach na diffygion. Er enghraifft:

* mae dulliau sy'n ystyriol o drawma yn pwysleisio pwysigrwydd deall y gallai rhai pobl gael trafferth oherwydd "adfyd, trawma neu drallod" ac ymateb i hyn gyda "dealltwriaeth, tosturi a charedigrwydd" ([Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma](#))

* mae'r model cymdeithasol o anabledd yn symud y ffocws o'r amhariad unigol (nodweddion unigolyn) at y rhwystrau cymdeithasol sy'n anablu pobl ([Y model Cymdeithasol o Anabledd](#))

* Mae niwroamrywiaeth yn pwysleisio bod gwahaniaethau dynol naturiol yn y ffordd y mae ymennydd pobl yn prosesu gwybodaeth. Ceir grwpiau o bobl hefyd sy'n prosesu gwybodaeth mewn ffordd debyg i'w gilydd a chyfeirir atynt fel rhai sydd â'r un niwroteip, ac y gall fod gwahaniaethau mawr rhwng niwroteipiau ([Diffiniadau o Niwroamrywiaeth](#))

Fodd bynnag, mae pob un o'r modelau hyn yn seiliedig ar dderbyniad cymdeithasol o wahaniaeth, ac oni bai a hyd nes y bydd hyn yn digwydd, gall gwahaniaeth yn natblygiad plentyn o'r norm ei eithrio o agweddau ar gymdeithas.

Serch hynny, fel yr amlinellwyd uchod, mae agweddau ar gysyniadau mwy llinol o ddatblygiad, megis y defnydd parhaus o gerrig milltir (hyd yn oed os ydynt yn cael eu trin fel "pwyntiau cyfeirio", yn hytrach na ffiniau anhyblyg), a phryderon am ddiffygion neu oedi datblygiadol, yn parhau. Felly, er ei bod yn ddefnyddiol ystyried y gwahaniaethau rhwng y ddau fodel (a grynhoir yn Nhabl 3.2), yn hytrach na gwahaniaeth deuaidd, mae'n debyg ei bod yn fwy defnyddiol ystyried y modelau normadol a lluosogol fel pennau cyferbyniol

[13] Nod therapyddion iaith a lleferydd yw lleihau effaith anawsterau plentyn a gwneud y mwyaf o'i alluoedd iaith.

continwrm, gyda rhai rhanddeiliaid yn tueddu mwy tuag at y y pen normadol ac eraill at ben amrywiaeth y sbectrwm. Er na ofynnwyd i randdeiliaid nodi lle roeddent yn eistedd ar y continwrm hwn, awgrymodd eu sylwadau y gellid gosod pob un ohonynt yn rhywle ar y continwrm hwn.

O ganlyniad i'r gwahaniaethau hyn (a thensiynau rhyngddynt) o ran sut mae twf a datblygiad plentyn yn cael eu cysyniadu, eu tacsonomeiddio a'u codio (er enghraifft, o ran grwpio newidiadau a'u cyfundrefn enwi) nid oes un diffiniad a rennir o ddatblygiad plant (y tu hwnt i'r datganiad lefel uchel a amlinellir uchod) nac un mesur safonedig neu set o fesurau ar draws y tri maes polisi a ystyrir. Cadarnhawyd hyn gan y cyfweiliadau â rhanddeiliaid a'r adolygiad desg o ddogfennau Llywodraeth Cymru.

3.2. Pam mae datblygiad plant yn bwysig?

Mae plentyndod yn gyfnod dylanwadol iawn ar gyfer datblygiad dynol ac mae blynyddoedd cynnar bywyd plentyn yn arbennig yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer ei ddatblygiad corfforol, gwybyddol, lleferydd, iaith a chyfathrebu a chymdeithasol-emosiynol. Nid yw caffael a datblygu sgiliau yn cael ei ystyried gan randdeiliaid fel proses ffisiolegol yn unig. Yn hytrach, mae hyn yn cael ei ddeall fel proses gymhleth a bennir gan ryngweithio plentyn â'i amgylchedd, fel ei deulu, ei gyfoedion a'r ysgol (gweler er enghraifft, [The social determinants of early child development: an overview](#)). Mae Model Ecolegol Bronfenbrenner o 1979 (gweler y testun mewn blwch) yn enghraifft o hyn a ddyfynnwyd a'i thrafod yn helaeth. Fel yr amlinellwyd uchod, ymddengys fod hyn yn un rheswm dros y newid ymddangosiadol tuag at gysyniadau mwy lluosogol o ddatblygiad plentyndod. Nid yw llwybrau datblygu yn sefydlog ac mae'r rhyngweithio rhwng y ffactorau amgylcheddol a ffisiolegol yn creu cyfleoedd i ymyrryd i gefnogi a meithrin datblygiad plant. Ategir hyn gan ymchwil sy'n nodi sut y gall ymyriadau o ansawdd yn y blynyddoedd cynnar gryfhau datblygiad plant (gweler er enghraifft, [Reducing Inequalities by Investing in Early Childhood Education and Care](#)).

Model Ecolegol Bronfenbrenner o 1979

Nod Model Ecolegol Bronfenbrenner oedd esbonio sut mae datblygiad plentyn yn cael ei lunio gan y rhyngweithio cymhleth a dynamig ^[troednodyn 14] rhwng y plentyn a'r amgylchedd o'i amgylch. Fel y dengys Ffigur 3.2, nododd Bronfenbrenner 5 system ryng-gysylltiedig:


Y Microsystem – lleoliadau uniongyrchol sy'n cael eu profi'n uniongyrchol gan y plentyn (er enghraifft, teulu, ysgol, cyfoedion, gofal plant)

Y Mesosystem – rhyngweithio rhwng elfennau o'r microsystem (er enghraifft, perthnasoedd rhwng rhieni ac athrawon)

Yr Ecosystem – lleoliadau allanol sy'n dylanwadu'n anuniongyrchol ar y plentyn (er enghraifft, gweithle rhieni, gwasanaethau cymunedol)

Y Macrosystem – ffactorau cymdeithasol ehangach fel gwerthoedd diwylliannol, cyfreithiau, ac amodau economaidd-gymdeithasol

Y Cronosystem – dimensiwn amser, sy'n adlewyrchu sut mae newidiadau amgylcheddol a thrawsnewidiadau bywyd yn effeithio ar ddatblygiad (er enghraifft, y teulu yn chwalu, diwygiadau polisi, cyd-destun hanesyddol)



Nodyn: Dim ond yn Saesneg y mae'r model ar gael


Ffynhonnell: Saesneg yn unig. Bronfenbrenner (1979)

[¹⁴] Mae plant yn datblygu drwy rhyngweithio cilyddol â'u hamgylcheddau, gan ddylanwadu arnynt ac maent yn cael eu dylanwadu ganddynt.

Mae'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod plentyndod yn darparu sylfaen ar gyfer caffael a datblygu sgiliau ymhellach drwy gydol oes plentyn ([New evidence on the Heckman Curve](#)). Felly, maent yn gosod y sylfeini ar gyfer datblygiad a chyfluoedd bywyd plant yn y dyfodol, gan alluogi plant i ffynnu a chyflawni eu potensial drwy gydol eu bywydau. Dangosir hyn mewn tystiolaeth o sut y gall buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar wella canlyniadau hirdymor (gweler, er enghraifft, [rhaglen Dechrau'n Deg](#) a'r [Astudiaeth o Addysg a Datblygiad Cynnar \(SEED\)](#)). I'r gwrthwyneb, mae cyfyngiadau ar ddatblygiad, fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, yn cael eu hystyried fel rhai a allai greu'r perygl o gyfyngu ar gapasiti unigolyn i ffynnu a chyflawni ei botensial drwy gydol ei fywyd.

Tynnodd y cyfweleion sylw hefyd at dystiolaeth fel Cromlin Heckman (gweler Ffigur 3.2) sy'n nodi bod y gyfradd uchaf o enillion economaidd yn dod o'r buddsoddiadau cynharaf mewn plant (sy'n adlewyrchu pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar). Fodd bynnag, nododd cyfranwyr eraill i'r astudiaeth fod ymchwil arall yn nodi y gall effeithiolrwydd buddsoddiadau cyfalaf dynol ddibynnu mwy ar ansawdd a gweithredu'r rhaglenni yn hytrach nag ar oedran y derbynwyr yn unig.

Ffigur 3.2: Cromlin Heckman



Nodyn: Dim ond yn Saesneg y mae'r ffigur ar gael

Ffynhonnell: Saesneg yn unig. [The Heckman Curve](#)

Felly, fel y mae Adran 1 yn amlinellu, mae ffocws ar ddatblygiad plant a'r blynyddoedd cynnar yn unol â nodau allweddol [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#), fel:

- nodau Cymru iachach a mwy cyfartal
- yr egwyddor meddwl hirdymor a dull ataliol.

Yn ogystal â'r effeithiau hirdymor, tynnodd y cyfweleion a gyfrannodd at yr astudiaeth hon sylw hefyd at yr effeithiau tymor canolig, yn fwyaf nodedig yr effeithiau ar barodrwydd plant i ddysgu. Dangoswyd hyn gan bryderon bod ysgolion yn adrodd am nifer cynyddol o blant ag

anawsterau ymddygiadol a chymdeithasol ac emosiynol, ac mae hyn yn cael ei drafod ymhellach isod.

O ganlyniad, cadarnhaodd yr adolygiad o ddogfennau polisi a chyfweliadau â rhanddeiliaid fod datblygiad plant o bwysigrwydd sylweddol i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys y 3 phrif faes polisi a gwmpesir gan yr adolygiad hwn).

3.3. Pam mae mesur datblygiad plant yn bwysig?

O ystyried pwysigrwydd datblygiad plant i ganlyniadau unigolion ar draws eu bywydau, ystyrir bod deall sut ac ar ba gyflymder y mae plant yn datblygu yn hanfodol (yn y llenyddiaeth a adolygwyd a chan y rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr astudiaeth hon) oherwydd gellir ei ddefnyddio i:

- adnabod plant nad ydynt yn datblygu ar y gyfradd ddisgwyliedig, gan alluogi ymyrraeth gynnar i gefnogi'r plentyn a/neu eu teulu yn well
- mesur datblygiad neu “gynnydd” (mewn gwirionedd y pellter a deithiwyd gan blentyn unigol)
- mesur canlyniadau (hynny yw, nodi'r lefel o ddatblygiad a gyrhaeddwyd gan blentyn unigol ar adeg mewn amser) y gellir eu defnyddio er mwyn helpu i ddeall mor dda y mae systemau blynyddoedd cynnar, iechyd ac addysg yn gweithio a ble, er enghraifft, i dargedu cymorth^[troednodyn 15]. Gall hyn gynnwys defnyddio data ar ganlyniadau i lywio hunanwerthuso, gwella o fewn lleoliadau a gwasanaethau, ac i gefnogi eu dwyn i gyfrif^[Troednodyn 16]
- archwilio sut a pham mae plant yn datblygu, megis ymchwil sy'n trafod sut y mae profiadau cynnar yn llunio canlyniadau diweddarach, gan gynnwys cyrhaeddiad academiaidd, iechyd a llesiant.

Felly, mae mesur datblygiad plant yn darparu tystiolaeth bwysig a all lywio penderfyniadau polisi ac ymarfer ar raddfeydd gwahanol sy'n amrywio o blentyn unigol (er enghraifft, a yw'r plentyn hwn yn gwneud cynnydd arafach nag y byddem yn ei ddisgwyl?) i system (er enghraifft, a yw ysgolion yng Nghymru yn effeithiol?) neu boblogaeth (er enghraifft, a yw plant yng Nghymru yn datblygu fel y byddem yn ei ddisgwyl?)^[troednodyn 17].

[15] Er bod data ar ganlyniadau yn cael eu casglu ar adeg mewn amser, at ddibenion gwerthuso nodwyd y gallai fod angen data canlyniadau hydredol yn aml, sy'n galluogi newid mewn canlyniadau dros amser.

[16] Er bod Cymru wedi symud i ffordd o'r defnydd o ddata ar lefel ysgol i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru at ddibenion atebolrwydd, efallai y bydd Estyn a chyrrff llywodraethu ysgolion yn dal i ddefnyddio'r mathau hyn o ddata i helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau i ddwyn ysgolion i gyfrif. Trafodir y defnydd o ddata yn y system addysg ymhellach yn [Ymchwil: Archwilio system wybodaeth newydd ar gyfer ysgolion](#).

[17] Roedd dosbarthu asesiadau mewn datblygiad personol a chymdeithasol ymhlith plant yn dilyn mynediad i'r dosbarth derbyn yn un o [Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol](#) Cymru (mesur datblygiad plant ifanc). Roedd hyn yn seiliedig ar ddangosydd sydd bellach wedi'i ddirwyn i ben, a oedd yn dibynnu ar ddata o broffil y Cyfnod Sylfaen, a gafodd ei ddirwyn i ben pan gyflwynwyd y cwricwlwm newydd.

3.3.1. Asesu ffurfiannol a chrynodol o blant unigol

Mae asesu yn ganolog i gefnogi plant unigol (dysgwyr) ar sail barhaus, o ddydd i ddydd mewn [Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar](#) ac yn y [Cwricwlwm i Gymru](#). Mae'n helpu ymarferwyr i nodi cryfderau a meysydd datblygu unigolyn, nodi cynnydd unigolyn a myfyrio ar y cynnydd hwn ac felly, y camau nesaf i gefnogi dysgu a datblygu pob plentyn unigol.

Gall asesu ffurfiannol hefyd helpu ymarferwyr i ddeall cynnydd grwpiau o ddysgwyr i'w helpu i fyfrio ar ymarfer a gall gefnogi hunanwerthuso a gwella ([Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu](#)). Fodd bynnag, fel y mae'r canllawiau yn ei gwneud yn glir “Ni ddylid cynnal asesiadau at ddibenion atebolrwydd” ac mae trefniadau [Gwerthuso, gwella ac atebolrwydd](#) “yn y system addysg yn drefniadau ar wahân i drefniadau asesu” [Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu](#)).

3.3.2. Gwybodaeth a thystiolaeth ar lefelau systemau a phoblogaeth

Mae casglu a defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth yn un o bileri allweddol [Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru](#) a'r [Canllawiau Gwella Ysgolion](#). Fel y dywedodd un rhanddeiliad o'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae a gyfrannodd at yr astudiaeth, roedd yn bwysig “i ni wybod bod y polisïau sydd gennym ar waith yn gwneud gwahaniaeth ac maent yn gwneud gwahaniaeth i'r plant oherwydd bod gennym ein math o ethos sylfaenol bod y plentyn a datblygiad plant wrth wraidd popeth a wnawn.” Yn yr un modd, adroddodd rhanddeiliaid eraill o'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae ac iechyd a gyfrannodd at yr astudiaeth fod data ar ddatblygiad plant ar lefelau systemau a phoblogaeth yn hanfodol er mwyn:

- llywio comisiynu gwasanaethau, er enghraifft, drwy nodi natur a maint yr angen
- gwerthuso effeithiolrwydd polisïau a rhaglenni

ac felly'n llywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol (BILI) ar ddyrannu adnoddau.

Fel y trafodwn ymhellach isod, ein dehongliad o'r ymatebion a roddwyd gan gyfweleion a chyfranwyr i'r gweithdy oedd bod y mwyafrif yn cytuno bod y ffocws ar fesur datblygiad plant yn symud tuag at y plentyn unigol ar draul mesur ar lefelau poblogaeth neu system ^[Troednodyn 18]. At hynny, ein dehongliad oedd bod mwyafrif yn croesawu hyn, er y teimlwyd hefyd ei fod wedi creu heriau. Er enghraifft, sylwodd nifer o randdeiliaid fod effeithiau pandemig COVID-19 ar ddatblygiad plant ac ymatebion polisi, fel cyfyngiadau symud a chau ysgolion, wedi codi amlygrwydd datblygiad plant. Roedd hyn yn aml yn cael ei fframio yn nhermau pryderon am “barodrwydd ar gyfer yr ysgol”, gydag enghreifftiau anecdotaidd, er enghraifft, o blant “nad oeddent wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r toiled” ac a oedd yn “cyrraedd yr ysgol yn dal i wisgo cewynnau” yn cael eu trafod. Roedd consensws ymhlith rhanddeiliaid bod

[18] Oherwydd bod cyfweiliad lled-strwythuredig a thrafodaeth gweithdy wedi'u defnyddio i gasglu data gan randdeiliaid, mae'n anodd meintio'i'n union pa nifer (neu gyfran) o randdeiliaid fyddai'n dal safbwynt penodol ar fater penodol.

system addysg Cymru dan bwysau. Y pryder oedd, yn absenoldeb mesur safonol, ei bod yn anodd iawn:

- ar lefel system i asesu'n gywir faint yr her a gyflwynir gan y mathau hyn o faterion neu werthuso effeithiolrwydd polisiâu neu raglenni (sydd, fel y nodwyd, wedi'u nodi'n bwysig wrth wneud penderfyniadau am gomisiynu neu ddatgomisiynu gwasanaethau)
- galluogi ymchwil i ddeall beth oedd yn ysgogi unrhyw ddirywiad mewn parodrwydd i ddysgu; er enghraifft, drwy archwilio effaith newidiadau yn ymddygiad rhieni neu ofalwyr ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar, addysg ac iechyd, mewn ymateb i'r pandemig ac ymatebion polisi fel cyfyngiadau symud. Gallai hyn hefyd gynnwys archwilio rhyngweithiadau rhwng y ddau (lle er enghraifft, arweiniodd newidiadau mewn ymddygiad rhieni at newidiadau mewn ymddygiad ymarferwyr blynyddoedd cynnar, addysgol ac iechyd)

Engbreiffiau o sut y gall y bylchau mewn data datblygiad plant ar lefel system neu boblogaeth wanhau datblygu gwasanaethau

Comisiynu gwasanaethau: Nododd rhanddeiliaid y gellid defnyddio dirprwyon o angen, fel anfantais economaidd-gymdeithasol, a'u bod yn cael eu defnyddio i lywio rhaglenni fel Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, ystyriwyd eu bod yn amherffaith ac yn golygu nad oedd targedu'r rhai mwyaf mewn angen mor effeithiol ag y gallai fod. Fel y dywedodd un cyfwelai, "oherwydd eich bod yn defnyddio mesur daearyddol, mae rhai teuluoedd ag angen is yn cael mwy o gymorth" ac roedd eraill â lefelau uwch o angen yn colli allan, "gan nad ydynt yn digwydd byw yn yr ardal cod post".

Gwerthuso gwasanaethau: Nododd rhanddeiliaid ei bod yn anodd gwerthuso cost-effeithiolrwydd rhaglenni ac ymyriadau allweddol, fel Dechrau'n Deg, yn absenoldeb systemau safonedig neu ddata lefel poblogaeth ar ddatblygiad plant. Adroddwyd bod hyn yn ei dro yn ei gwneud yn anoddach cyflwyno'r achos dros barhau neu gynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau.

Ymchwil a datblygu gwasanaethau: Fel y nododd un cyfwelai, gall fod tuedd weithiau (nid oeddent yn cymeradwyo hyn) i "feio" rhieni neu ymwelwyr iechyd am yr anawsterau a brofodd plant yn eu blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol. Fodd bynnag, fel y gwnaethant nodi, yn absenoldeb ymchwil "nid ydym yn gwybod [beth sy'n achosi'r anawsterau y mae plant yn eu profi], ydyn ni?" Tynnodd eraill sylw at yr anhawster o ran deall beth allai fod yn ysgogi tueddiadau yn niferoedd y plant ag anghenion dysgu ychwanegol, yn absenoldeb systemau gwell neu ddata lefel poblogaeth ar ddatblygiad plant.

3.4. Sut mae datblygiad plant yn cael ei fesur

Gellir mesur datblygiad plant mewn ffyrdd gwahanol; nododd yr adolygiad y canlynol:

- dau gysyniad o ddatblygiad plant (a gyflwynir uchod yn Nhabl 3.2), fel:

- proses linol, y disgwylir i bob plentyn ei dilyn. Gellir defnyddio'r disgwyliad hwn i lunio cyfres o normau, y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn ac y gellir eu defnyddio i nodi diffygion neu oedi mewn datblygiad
- proses luosogol, lle mae datblygiad plentyn unigol yn cael ei ystyried yn unigryw, o ystyried gwahaniaethau mewn, er enghraifft, cyflymder a dilyniant y datblygiad
- dau brif fath o ddull a ddefnyddir gan wasanaethau iechyd: sgrinio a gwyliadwriaeth, a dau brif fath o ddull a ddefnyddir gan leoliadau addysg: asesiadau crynodol a ffurfiannol. Cyflwynir y dulliau hyn isod yn Nhabl 3.3.

Mae sgrinio yn gysylltiedig â model llinol o ddatblygiad plant a'r defnydd o offer safonedig. Mewn cyferbyniad, gall model llinol neu luosogol o ddatblygiad plant lywio gwyliadwriaeth, asesu ffurfiannol a chrynodol, a gall pob un ddefnyddio offer safonedig. Fodd bynnag, er bod gwyliadwriaeth ac asesu ffurfiannol yn gysylltiedig â'r defnydd o offer safonedig, fel arfer defnyddir y rhain ynghyd â dulliau eraill, i lywio barn broffesiynol, wrth fesur datblygiad plant.

Tabl 3.3: Dau fath o fesur: Sgrinio ac asesu crynodol a Gwyliadwriaeth ac asesu ffurfiannol

Diben	Sgrinio ac asesu crynodol	Gwyliadwriaeth ac asesu ffurfiannol
Disgrifiad	Asesu'r plentyn ar adeg mewn amser (gan ddarparu cipolwg ar ddatblygiad), neu bwyntiau mewn amser [troednodyn ¹⁹], gan ddefnyddio offer safonedig i alluogi cymhariaeth yn erbyn y norm er mwyn, er enghraifft, helpu i nodi oedi datblygiadol posibl a/neu anghenion neu ganlyniadau heb eu diwallu	Asesiad parhaus o'r plentyn a/neu arsylwi, gan ddefnyddio dulliau mwy personol, sy'n canolbwyntio ar ddeall ble mae'r plentyn unigol a mesur ei gynnydd, i lywio'r cymorth neu'r her sydd ei angen arno, a/neu ei rieni neu ofalwyr, ar gyfer ei ddatblygiad neu ei gynnydd
Model datblygiad plant	Mae'n gysylltiedig â model mwy normadol, gyda'i ffocws ar nodi diffygion neu oedi	Mae'n gysylltiedig â model mwy lluosogol, gyda'i ffocws ar gefnogi cynnydd plentyn unigol
Enghreifftiau o / dull o fesur	Ei nod yw bod yn wrthrychol, gan ddefnyddio dulliau safonedig sy'n anelu at sicrhau bod mesur yn annibynnol ar deimladau, barn neu ragfarnau'r asesydd • profion safonedig a gwblhawyd gan y plentyn, fel asesiadau darllen a rhifedd a TGAU • yn achos datblygiad corfforol, mesur uniongyrchol (er enghraifft, o uchder neu bwysau gan ddefnyddio stadiomedr neu gloriannau) • arsylwi'r plentyn gan, er enghraifft, staff addysg, ymwelwyr ieuchyd a/neu rieni a gofalwyr, gan gynnwys graddfeydd ymddygiadol o ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth a rhyngweithio cymdeithasol.	Ei nod yw bod yn wrthrychol, drwy sicrhau bod barnau proffesiynol yn cael eu hategu gan ddealltwriaeth ymarferwyr o ddatblygiad plant ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau (ac felly tystiolaeth), gan gynnwys arsylwi, offer a phrofion ac asesu mewn gwahanol gyd-destunau, gan lunio barn yn erbyn safonau diffiniedig. • Mae'r dull hwn yn sail i Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar a'r Cwricwlwm i Gymru.

[¹⁹] Mae dyluniadau carfan hydredol, lle mae data yn cael eu casglu ar sawl oedran (er enghraifft, 2, 3, 5, a 5.5 oed) i olrhain newid (datblygiad) dros amser, hefyd yn gyffredin, er y gellir defnyddio mesurau hefyd i greu cipolwg ar ddatblygiad ar un pwynt mewn amser.

Mesuriadau safonedig

Mae'r defnydd o fesurau safonedig sy'n anelu at sicrhau cysondeb (unffurfiaeth) wrth weinyddu a sgorio profion yn gyffredin, er mwyn:

- galluogi cymariaethau uniongyrchol dros amser (er enghraifft, i fesur datblygiad plentyn unigol) a/neu rhwng plant (er enghraifft, i asesu a yw datblygiad plentyn unigol yn unol â'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig, y 'norm')
- cryfhau dilysrwydd a dibynadwyedd mesur, gan y gall safoni helpu i gryfhau dibynadwyedd drwy sicrhau cysondeb ac, yn fwy sylfaenol, drwy safoni'r defnydd o offer sydd â dilysrwydd a dibynadwyedd profedig

Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, ystyrir bod y defnydd o fesurau safonedig hefyd yn cynyddu'r risg o farn leihaol ac anhyblyg o ddatblygiad plant.

Enghreifftiau o offer asesu safonedig

Mae asesiad uniongyrchol o'r plentyn gan ddefnyddio profion safonedig a gwblhawyd gan y plentyn neu arsylwi'r plentyn, a ddefnyddir ledled Cymru, yn cynnwys:

- [Asesiadau Personol Darllen a Rhifedd](#) sy'n orfodol i ddysgwyr ym Mlynedd 2 i 9 mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ^[troednodyn 20]
- [Rhaglen Mesur Plant Cymru](#) sy'n mesur taldra a phwysau plant yn y dosbarth derbyn
- y [Gyfras o Asesiadau Symud i Blant \(ABC\)](#), prawf a weinyddir yn unigol a ddefnyddir gan BILI Betsi Cadwaladr, a gynlluniwyd i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am helpu plant ag anawsterau symud, sy'n cynnwys sgiliau rheoli motor manwl a bras
- mae'r [Amserlen Sgiliau Tyfu](#) (SOGS) yn offeryn sgrinio ac asesu datblygiadol ar gyfer plant 0 i 5 oed. Mae'n asesu datblygiad ar draws naw maes ^[troednodyn 21] ac fe'i bwriedir i ddarparu 'cipolwg' ar gryfderau datblygiadol ac oedi posibl, gan helpu i nodi lle gallai fod angen asesiad neu ymyrraeth bellach

Mae cynnwys profion llythrennedd a rhifedd, fel asesiad personol o ddarllen a rhifedd yng Nghymru, fel mesurau datblygiad plant, yn codi rhai cwestiynau. Mae llythrennedd (darllen, ysgrifennu, dealltwriaeth iaith) a rhifedd (deall rhifau, rhifydddeg, datrys problemau) yn asesu sgiliau gwybyddol ac iaith penodol sydd, fel yr amlinellir ym mharagraff 3.1, yn cael eu hystyried fel elfennau allweddol o ddatblygiad plant. Fodd bynnag, mae datblygiad gwybyddol ac iaith yn cwmpasu amrywiaeth ehangach o sgiliau na'r rhai a gwmpesir gan brofion llythrennedd a rhifedd, ac nid yw'r profion hyn yn asesu meysydd eraill o ddatblygiad plant yn uniongyrchol, megis datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol. Oherwydd bod yr astudiaeth hon yn cynnwys amrywiaeth o fesurau, sy'n canolbwyntio ar rai elfennau o ddatblygiad plant yn unig, fel datblygiad corfforol (er enghraifft, datblygu sgiliau motor manwl), rydym hefyd wedi cynnwys profion llythrennedd a rhifedd fel enghreifftiau o ddatblygiad plant. Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â thrin y mesurau cul hyn o elfennau penodol o ddatblygiad plant fel pe baent yn fesurau cynhwysfawr o ddatblygiad plant.

Cwricwlwm i Gymru: Mesur cynnydd plant

Mae Cwricwlwm i Gymru yn nodi 4 diben y cwricwlwm, i ddatblygu plant a phobl ifanc fel:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd

^[20] Mae'r asesiadau yn defnyddio cronfa o gwestiynau safonedig, ond mae'r asesiadau yn addasol (ac wedi'u teilwra i bob dysgwr unigol) ac mae'r sgôr safonedig yn sgôr gymharol. Mae hyn yn cyfyngu ar werth asesiadau i ddeall newid dros amser neu rhwng carfannau.

^[21] Y meysydd yw: ystum goddefol, ystum gweithredol, locomotor, trafod, gweledol, clyw ac iaith, lleferydd ac iaith, cymdeithasol rhyngweithiol, a chymdeithasol hunanofal.

- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Pwysleisiodd cyfweleion fod hyn yn golygu bod y cwricwlwm newydd yn ymgorffori cysyniad cyfannol o ddatblygiad plant, a oedd yn ystyried y gwahanol feysydd yn rhai rhyng-gysylltiedig (sy'n golygu bod yn rhaid iddynt "i gyd weithio gyda'i gilydd i gefnogi datblygiad plentyn" fel y dywedodd un cyfwelai). Roedd hyn hefyd yn golygu nad yw'n breintio unrhyw un maes, fel gwybyddol, nac yn creu "hierarchiaeth", fel y dywedodd un cyfwelai. Mewn gwrthgyferbyniad, nodwyd, yn y gorffennol, bod gormod o bwyslais wedi'i roi ar gyrhaeddiad (a thrwy hynny, elfennau o feysydd iaith a gwybyddol datblygiad plant) fel prif fesur llwyddiant plentyn unigol ac ysgol.

Mae deall a chefnogi datblygiad plant (yn yr ystyr gyfrannol hon) wrth wraidd Cwricwlwm i Gymru. Fel y mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru, [Galluogi Dysgu](#), yn nodi, "Wrth ddylunio cwricwlwm, mae gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymarferydd o ddatblygiad plant yn hanfodol" a "Dylai'r broses addysgu a dysgu gynnwys canolbwyntio ar feysydd traddodiadol datblygiad plant"^[Troednodyn22]. Disgrifir datblygiad fel elfen annatod o "gynnydd" plant/dysgwyr "ar hyd eu taith ddysgu" (dim tudalen, *ibid*).

Fel y mae [Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu](#) yn amlinellu, "mae cynnydd dysgwyr ar hyd continwwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed yn rhan greiddiol o'r Cwricwlwm i Gymru." Mae disgrifiadau o ddysgu yn rhoi canllawiau ar sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd ac maent wedi "eu trefnu mewn pum cam cynnydd sy'n rhoi pwyntiau cyfeirio ar gyfer cyflymder y cynnydd hwnnw"^[troednodyn23]. ([Egwyddorion ar gyfer cynllunio'ch cwricwlwm](#)). Mae asesu yn cael ei ystyried yn ganolog i gynnydd ac yn chwarae tair prif ran:

- cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion ([Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu](#))

[²²]Mynegir y rhain fel "pum llwybr datblygiadol", "perthyn", "cyfathrebu", "archwilio", "datblygiad corfforol" a "lles".

[²³] Mae'r camau cynnydd yn cyfateb yn fras i ddisgwyliadau yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.

Datblygu camau cynnydd

Er mwyn nodi “yr hyn sy'n bwysig” ym mhob Maes a sut y gellid disgrifio cynnydd ym mhob Maes, sefydlodd Llywodraeth Cymru rwydwaith genedlaethol o Ysgolion Arloesi^[Troednodyn24] a grwpiau cenedlaethol ar gyfer pob Maes. Er mwyn cefnogi eu gwaith, comisiynwyd y prosiect [Camau i'r Dyfodol](#) i gynnal ymchwil i gynnydd fel lluniad a hefyd ei chymhwyso yn ymarferol. Gweithiodd prosiect Camau gyda'r 6 grŵp cenedlaethol i benderfynu sut y gellid disgrifio a datblygu cynnydd orau yn y chwe maes cwricwlaidd a sut y gellid nodi a disgrifio camau cynnydd yn y ffordd fwyaf defnyddiol i gefnogi dysgu yn y dyfodol.

Addaswyd o: [Camau: Progression and Assessment in the Curriculum for Wales](#)

Fel y nododd un cyfwelai, roedd y system newydd yn ymwneud â “chwrdd â dysgwyr lle maen nhw” ac adeiladu ar hynny gan ddefnyddio “dull sy'n seiliedig ar gryfderau.” Mewn gwrthgyferbyniad, disgrifiwyd y system flaenorol fel un sy'n “fwy tebyg i fodel diffyg o nodi'r hyn y gallai dysgwyr ei wneud a cheisio llenwi bylchau yn hynny.”

Yn bwysig, mae'r cwricwlwm newydd yn cynnig mwy o hyblygrwydd ynghylch sut mae cynnydd (ac felly datblygiad plant) yn cael ei fesur. Disgrifiodd cyfweleion sut y mae'n rhoi mwy o barch i farn broffesiynol fesur yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn neu ar gyfer y plentyn (i leihau'r risg o “werthfawrogi'r hyn sy'n cael ei fesur” yn unig fel y dywedodd un cyfwelai). Serch hynny, bwriedir i'r galluedd hwn gael ei arfer o fewn fframwaith cenedlaethol, ac mae'r canllawiau yn nodi'r angen i ddatblygu “dealltwriaeth gyffredin o gynnydd” er mwyn sicrhau “cydlyniaeth a thegwch ym mhob rhan o'r system addysg” ([Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu](#)).

Ystyriaethau ymarferol

Mae natur a math y newid sy'n cael ei fesur a chapasiti plant hefyd yn cyfrannu at wahaniaethau yn y ffordd y mae datblygiad plant yn cael ei fesur; er enghraifft, gellir mesur taldra a phwysau yn uniongyrchol drwy ddefnyddio offerynnau fel stadiomedr neu gloriannau yn y drefn honno, ac mae rhai mathau o ymddygiad yn cael eu mesur drwy ddefnyddio arsylwi gan ymarferwyr, gan ddefnyddio offer fel [Proffil Boxhall](#), neu, lle mae plentyn yn gallu, hunanadrodd data.

3.5. Mathau o fesurau a dangosyddion datblygiad plant a'r defnydd o ddata

Fel yr amlinellwyd uchod, oherwydd bod datblygiad plant yn cael ei ddeall mewn ffyrdd gwahanol a gellir defnyddio mesurau datblygiad plant at ddibenion gwahanol (ac mae hyn yn digwydd), mae'r wybodaeth y mae'r mesur wedi'i gynllunio i'w llunio hefyd yn wahanol. Fel yr amlinellir isod, nododd yr adolygiad amrywiaeth o fesurau sy'n adlewyrchu

[24] Gweithiodd y Rhwydwaith Ysgolion Arloesi ar y cyd â chonsortia rhanbarthol, arbenigwyr a sefydliadau addysg uwch, a phartneriaid allweddol fel Cymwysterau Cymru ac Estyn, “i ddatblygu cwricwlwm eang, cytbwys, cynhwysol a heriol” i Gymru ([Cwricwlwm newydd i Gymru: Yr hanes hyd yn hyn...](#)).

gwahaniaethau yn eu dibenion a'r cysyniad o ddatblygiad plant, a hefyd yn yr offer a ddefnyddiwyd a'r amseru. Gall y gwahaniaethau hyn (a dylai'r gwahaniaethau hyn) lunio'r dewis a'r defnydd o fesurau.

Fel y nodwyd uchod, nododd rhanddeiliaid densiynau rhwng defnyddio mesurau at fwy nag un diben. Mae defnyddio mesurau at ddibenion gwahanol i'r rhai y bwriadwyd iddynt, yn creu risgiau fel ystumio arfer lle, er enghraifft, mae ymarferwyr yn 'addysgu at y prawf' neu lle defnyddiwyd data a fwriadwyd ar gyfer asesu i ddwyn ysgolion i gyfrif. Fodd bynnag, gall y defnydd o ddata presennol hefyd greu cyfleoedd, fel ymchwil i ysgogwyr datblygiad plant. Gall defnyddio data presennol, hyd yn oed os nad at y diben gwreiddiol, hefyd fod yn fwy cost-effeithiol ac yn fwy moesegol na datblygu mesurau newydd a chasglu rhagor o ddata [troednodyn 25].

3.5.1. Enghreifftiau o wahanol ddulliau o fesur datblygiad plant mewn gwahanol feysydd polisi yng Nghymru

Maes polisi: Iechyd

Sut a phryd mae datblygiad plant yn cael ei fesur?

- Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn cefnogi sgrinio gan ddefnyddio offer safonedig i alluogi adnabod anghenion penodol yn gynnar, gan gynnwys gwyliadwriaeth, monitro, ac asesu datblygiad a llesiant cyffredinol plentyn dros amser. Gellir llywio hyn gan offer safonedig fel SOGS, ond dylid defnyddio'r offer hyn, ochr yn ochr â data eraill, i lywio barn broffesiynol am ddatblygiad plentyn.
- Mae'r rhaglen yn diffinio 9 cyswllt craidd rhwng 10 diwrnod a 3.5 oed. Mae ymwelwyr iechyd yn adolygu twf a chynnydd datblygiadol babi, gan ddefnyddio offer fel stadiomedr a chloriannau, Arsylwi ac Asesu Iechyd y Baban (HOAI), yr Offeryn Asesu Gwydnwch Teuluol (FRAIT) a'r Amserlen Sgiliau Tyfu (SOGs). Gwneir cysylltiadau diweddarach gan nyrsys ysgol, gyda mesur drwy'r Rhaglen Mesur Plant.

Maes polisi: Y Blynyddoedd Cynnar

Sut a phryd mae datblygiad plant yn cael ei fesur?

- Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn adeiladu ar Raglen Plant Iach Cymru, gyda chysylltiadau amlach a chymorth ehangach i ganfod a mynd i'r afael â materion datblygiadol mewn teuluoedd risg uwch yn well. Mae pwyslais arbennig ar nodi plant sydd mewn perygl o ddatblygu anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu.
- Mae [Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar: Trefniadau Asesu ar gyfer Babanod a Phlant Bach 0 i 3 oed yng Nghymru](#) yn seiliedig ar arsylwi ac wedi'u bwriadu i gefnogi datblygu, dysgu a llesiant yr holl fabanod a phlant ifanc o'u genedigaeth hyd at dair oed.

[25] Weithiau disgrifir hyn fel y paradigm 'casglu unwaith, defnyddio sawl gwaith.' (COUTM).

- Mae [Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir](#) yn ceisio cefnogi cynnydd mewn dysgu plant, ar gyfer y plant hynny mewn lleoliadau meithrin a ariennir nad ydynt wedi'u cynnal sydd wedi mabwysiadu'r [cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir](#).

Maes polisi: Addysg

Sut a phryd mae datblygiad plant yn cael ei fesur?

- Nod Cwricwlwm i Gymru yw galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd yn ei ddysgu. Dylai'r asesu fod yn barhaus ac yn ffurfiannol. Mae cynnydd yn cael ei fesur yn erbyn disgrifiadau o sut beth fydd dysgu fod ar wahanol gamau, nid yn erbyn lefelau penodol sy'n gysylltiedig ag oedran.
- [Asesiadau Personol Darllen a Rhifedd](#) ym mlynnyddoedd 2 i 9 mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac asesu sgiliau plant (dysgwyr) mewn llythrennedd a rhifedd.
- Ar ddiwedd addysg orfodol, mae arholiadau, fel TGAU, yn darparu asesu crynodedol o sgiliau a gwybodaeth dysgwyr.

3.5.2. Enghreifftiau o wahanol ddulliau o fesur datblygiad plant mewn gwahanol feysydd polisi yn Lloegr

Maes polisi: Iechyd

Sut a phryd mae datblygiad plant yn cael ei fesur?

- Fel rhan o'r Rhaglen Plant Iach ^[troednodyn 26], mae ymwelwyr iechyd yn asesu datblygiad ar draws amrywiaeth o feysydd ar sawl cyfnod gan gynnwys, 10 i 14 diwrnod, 6 i 8 wythnos, tua 9 i 12 mis a thua 2 i 2½ oed
- Argymhellir bod ymwelwyr iechyd yn defnyddio offer fel yr Holiadur Oedran a Chyfnodau (ASQ-3 neu ASQ:SE-2) ar gyfer yr adolygiad ar tua 9 i 12 mis a 2 i 2½ oed. Fodd bynnag, mae ansawdd data yn amrywio ac mae adroddiadau cenedlaethol cyfyngedig
- Nod asesu yw cefnogi plant a theuluoedd, gwella canlyniadau iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd

[26] Y rhaglen plant iach yw'r fframwaith iechyd cyhoeddus cenedlaethol ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar. Mae'n cynnwys sgrinio, imiwneiddio, adolygiadau iechyd a datblygu, gwella iechyd, llesiant a rhianta.

Maes polisi: Fframwaith Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar (EYFS) (0 i 5 oed)

Sut a phryd mae datblygiad plant yn cael ei fesur?

- Mae cynnydd plant yn y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei fesur ar draws saith maes allweddol wedi'u grwpio mewn tri "phrif faes": Cyfathrebu ac Iaith, Datblygiad Corfforol, Datblygiad Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol a phedwar 'maes penodol': Llythrennedd, Mathemateg, Deall y Byd a'r Celfyddydau Mynegiannol a Dylunio
- Mae asesu yn y blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar arsylwi a'r nod yw sicrhau bod yr holl blant yn datblygu'n dda ac i nodi'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt cyn i addysg ffurfiol ddechrau. Mae pwyslais cryf ar "barodrwydd ar gyfer yr ysgol"

Maes polisi: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1 (5 i 7 oed) a Chyfnod Allweddol 2 (7 i 11 oed)

Sut a phryd mae datblygiad plant yn cael ei fesur?

Mae'r rhan fwyaf o'r asesu wedi'i arwain gan athrawon ac yn ffurfiannol. Serch hynny, bydd ysgolion hefyd yn cynnal asesu crynodol ac asesu cenedlaethol safonedig, gan gynnwys:

- y Gwiriad Sgrinio Ffoneg (Blwyddyn 1, wedi'i ailadrodd ym Mlwyddyn 2 oes oes angen) sy'n mesur sgiliau llythrennedd a datgodio cynnar (un o ddangosyddion cryf datblygiad iaith a gwybyddol)
- asesiadau diwedd Blwyddyn 2 mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth, wedi'u llywio gan arsylwi athrawon
- Profion Statudol (SATs) diwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn darllen, mathemateg, gramadeg, atalnodi a sillafu, ochr yn ochr ag asesiadau athrawon o ysgrifennu a gwyddoniaeth. Mae'r canlyniadau hyn yn helpu i fonitro cynnydd ac yn nodi plant y mae angen cymorth arnynt wrth bontio i'r ysgol uwchradd

3.5.3. Enghreifftiau o wahanol ddulliau o fesur datblygiad plant mewn gwahanol feysydd polisi yn yr Alban

Maes polisi: Iechyd

Sut a phryd mae datblygiad plant yn cael ei fesur?

- Fel rhan o'r Rhaglen Systemau Iechyd Plant, ceir cyfres o adolygiadau iechyd plant, gan gynnwys asesiad o ddatblygiad plant yn 13 i 15 mis, 27 i 30 mis a 4 i 5 oed
- mae'r adolygiadau yn cynnwys gofyn i rieni am gynnydd eu plentyn, arsylwi'r plentyn yn ofalus, a chefnogi rhieni i gwblhau holiadur strwythuredig am ddatblygiad y plentyn sy'n cynnwys asesiad o ddatblygiad, iechyd, twf a llesiant

- mae'r adolygiadau yn gyfle i ddarparu cymorth rianta a gwneud atgyfeiriadau i gymorth ychwanegol a/neu asesiad pellach, lle bo angen. Eu nod yw cynorthwyo datblygiad plant a chanfod pryderon datblygiadol cynnar a hyrwyddo ymyrraeth gynnar
- defnyddir y set ddata a gynhyrchir gan yr adolygiadau hefyd i gynorthwyo'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau a chyhoeddir data cenedlaethol ar y [dangosfwrdd iechyd yn y blynyddoedd cynnar](#)

Maes polisi: Fframwaith y Blynyddoedd Cynnar a'r Cwricwlwm ar gyfer Rhagoriaeth

Sut a phryd mae datblygiad plant yn cael ei fesur?

- Mae asesu yn y blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar arsylwi. Mae ymarferwyr yn arsylwi chwarae ac ymgysylltu plant er mwyn olrhain cynnydd. Mae hyn yn cael ei gofnodi mewn Teithiau/Proffiliau Dysgu Personol, Portffolios Unigol sy'n cofnodi cynnydd datblygiadol, cyflawniadau a'r camau nesaf
- Ar ddiwedd y Lefel Gynnar (fel arfer erbyn 7 oed), mae athrawon yn rhoi barn broffesiynol ynghylch a yw plentyn wedi cyflawni cerrig milltir datblygiadol disgwyliedig ar draws y Cwricwlwm ar gyfer Rhagoriaeth, Profiadau a Chanlyniadau
- Mae Asesiadau Safonedig Cenedlaethol yr Alban (SNSA) yn gyfres o asesiadau llythrennedd a rhifedd ar-lein safonedig ar gyfer plant Cynradd 1 (fel arfer 5 i 6 oed), Cynradd 4 (fel arfer 8 i 9 oed), Cynradd 7 (fel arfer 11 i 12 oed) ac Uwchradd 3 (fel arfer 14 i 15 oed). Maent wedi'u cynllunio i gynnig adroddiadau diagnostig y mae athrawon yn eu defnyddio i lywio eu barn broffesiynol, yn hytrach nag ar gyfer asesiad pasio/methu

Ffynonellau: [Curriculum for Excellence Experiences and Outcomes; Early child development; Early years foundation stage statutory framework for group and school-based providers; Realising the ambition: Being Me; Population health needs assessment: a guide for 0 to 19 health visiting and school nursing services; What is the Child health Programme](#)

3.6. Mathau eraill o fesurau


Fel y dengys Ffigur 3.3, nododd yr adolygiad hefyd nifer o fesurau eraill sy'n gysylltiedig â datblygiad plant, sy'n canolbwyntio ar:

- brofiadau, ymddygiad plant (fel ymddygiad 'peryglus') ac amgylcheddau (a allai greu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod) sy'n gallu effeithio ar ddatblygiad plant
- canlyniadau ehangach i blant, fel lefelau llesiant neu gyrhaeddiad addysgol, sy'n gysylltiedig â datblygiad plant ^[troednodyn 27]

[²⁷] Er enghraifft, mae datblygu cymdeithasol ac economaidd yn debygol o gyfrannu at lefelau o lesiant goddrychol ac mae datblygu gwybyddol ac iaith yn debygol o gyfrannu at gyrhaeddiad addysgol.

Nid yw'r rhain ynddynt eu hunain yn fesurau o ddatblygiad plant, gan nad ydynt yn disgrifio'r dilyniant o newidiadau corfforol, synhwyrdd, iaith, gwybyddol, emosiynol ac ymddygiadol sy'n digwydd mewn plentyn o'i genhedlu hyd at fod yn oedolyn.

Ffigur 3.3: Mesurau datblygiad plant a mesurau newid sy'n gysylltiedig â datblygiad plant



Ffactorau amgylcheddol

Mae'r ffocws ar ymddygiadau ac amgylcheddau a phrofiadau yn aml yn gysylltiedig â model ecolegol o ddatblygiad plant, fel fframwaith 'ecolegol' Bronfenbrenner (1979) (gweler Adran 3.2). Mae'n helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer ymyriadau i gefnogi a chynorthwyo datblygiad plant ac i nodi ffactorau risg a allai ragweld y tebygolrwydd na fydd datblygiad plant yn dilyn y cyflymder neu'r llwybr disgwylidig. Adroddwyd bod perthnasoedd rhieni/babanod yn cael eu hystyried yn hanfodol i ddatblygiad plentyn ac felly, fel y disgrifiodd un cyfwelai, "mae deall ansawdd perthynas rhiant-baban hefyd yn rhywbeth a allai fod yn faes gwerthfawr ac ychwanegol i'w archwilio ac edrych arno."

Mae offer mesur amgylchedd a nodwyd gan y chwiliadau yn cynnwys:

- y [Raddfa Sgorio Amgylchedd Babanod a Phlant Bach \(ITERS-R\)](#)
- y [Raddfa Sgorio Amgylchedd Plentyndod Cynnar \(ECERS-R\)](#).

Mae'r dull hwn yn amlwg yn yr [Adolygiad o Sgrinio Iaith Gynnar](#), sy'n ystyried sut y mae ffactorau risg ac amddiffynnol, fel genedigaeth gynamserol, statws economaidd-gymdeithasol isel neu lefel isel o addysg rhieni, neu i'r gwrthwyneb, cael eu geni tymor llawn, lefelau uchel o addysg rhieni a gwybodaeth am ddatblygiad plant, yn gysylltiedig â risgiau uwch neu is o anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu. Fodd bynnag, mae'n pwysleisio bod y ffactorau hyn i'w defnyddio i nodi pa blant sydd fwyaf mewn perygl o ddatblygu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn hytrach na nodi pa blant sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

3.6.1. Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ymddygiadau peryglus

Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ddigwyddiadau trawmatig^[troednodyn28] yn enwedig y rhai yn ystod plentyndod cynnar sy'n cael effeithiau parhaol ar iechyd, datblygiad a chanlyniadau bywyd. Maent fel arfer yn bethau sy'n digwydd i blentyn, yn hytrach na phethau y mae plentyn yn eu gwneud. Mae arolygon ymchwil cyfnodol sy'n seiliedig ar y boblogaeth wedi amcangyfrif nifer yr achosion o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yng Nghymru (gweler, er enghraifft, [Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg oedolion Cymru](#)). Fodd bynnag, er bod data ar amlygiad plant i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod unigol fel cam-drin yn cael eu casglu gan, er enghraifft, y gwasanaethau cymdeithasol, nid oes unrhyw fesur arferol o amlygiad i'r set lawn o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu brofiadau trawmatig.

Mae "ymddygiad peryglus" yn aml yn gysylltiedig â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac yn disgrifio ymddygiad, gweithredoedd neu ddewisiadau a all beryglu iechyd corfforol, llesiant seicolegol neu ddatblygiad person ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys ymddygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd fel:

- diet a maeth gwael (defnydd uchel o siwgr neu ddioddydd egni)
- anweithgarwch corfforol neu amser sgrin gormodol
- amddifadedd cwsgr
- defnyddio sylweddau (er enghraifft, arbrofi cynnar gyda smygu, alcohol, neu fepio)

3.6.2. Mesur ymddygiad a chanlyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd

Mae amrywiaeth o ymddygiad a chanlyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd fel llesiant, yn cael eu mesur drwy arolygon HAPPEN a SHRN. Maent yn darparu tystiolaeth gadarn ar lefel y

[28] Mae'r rhain yn cynnwys cam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, esgeulustod corfforol neu emosiynol, trais domestig, camddefnyddio sylweddau gan rieni, salwch meddwl rhieni, gwahanu rhieni neu ysgariad a charcharu aelod o'r aelwyd [Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg oedolion Cymru](#).

boblogaeth i lywio arferion ysgolion a pholisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygiad plant, addysg ac iechyd y cyhoedd.

Crynodeb o'r arolygon HAPPEN a SHRN

HAPPEN

Diben

Archwilio cysylltiadau rhwng ymddygiad iechyd plant, llesiant a chyrhaeddiad ysgol, gan alluogi ymchwil sy'n seiliedig ar ddata a hunanwerthuso a chynllunio gweithredu gan ysgolion.

Ffocws

Disgyblion ysgol gynradd, 9 i 11 oed.

Mae'r mesurau'n cynnwys

- Gweithgarwch corfforol, ymddygiad iach fel bwyta ffrwythau a llysiau a chysgu
- Llesiant emosiynol a hapusrwydd
- Perthnasoedd cymdeithasol a pherthyn i'r ysgol
- Ymddygiad iechyd (er enghraifft, amser sgrin, hylendid deintyddol)

Defnydd

Mae ysgolion yn derbyn adroddiadau adborth wedi'u teilwra. Mae data yn cael eu cysylltu drwy fanc data SAIL i asesu canlyniadau datblygiadol ac addysgol ehangach.

SHRN

Diben

Monitro iechyd, llesiant ac ymddygiad risg plant a phobl ifanc gan alluogi ymchwil a hunanwerthuso a chynllunio gweithredu gan ysgolion sy'n seiliedig ar ddata.

Ffocws

Disgyblion ysgol gynradd ac uwchradd 7 i 16 oed.

Mae'r mesurau'n cynnwys

- Gweithgarwch corfforol ac ymddygiad iach fel bwyta ffrwythau a llysiau a chwsg
- Iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- Perthnasoedd, bwlio, cynhwysiant, a diogelwch
- Defnyddio sylweddau (smygu, fepio, alcohol)

Defnydd

Mae ysgolion yn derbyn adroddiadau meincnodi. Mae data cenedlaethol yn llywio strategaethau Llywodraeth Cymru, fel y Ddull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a

Llesiant maes iechyd a lles Cwricwlwm Cymru. Mae data o'r Arolwg Iechyd a Llesiant Ysgolion ar gael i'w chysylltu â setiau data eraill drwy fanc data SAIL.

Ffynonellau: [HAPPEN](#); [y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion \(SHRN\)](#); [Data Resource Profile: The School Health Research Network \(SHRN\) Student Health and Well-being \(SHW\) survey of 11–16-year-olds \(2017–2023\)](#)

4. Canfyddiadau: nodweddion dangosyddion a mesurau

4.1. Cyflwyniad

Fel y mae Adran 3 yn amlinellu, mae mesurau a dangosyddion datblygiad plant yn wahanol mewn dimensiynau lluosog, gyda gwahanol fesurau wedi'u cynllunio:

- ar gyfer gwahanol gysyniadau o ddatblygiad plant (fel llinol neu luosogol)
- at wahanol ddibenion (fel sgrinio, mesur datblygiad, cynnydd, neu ganlyniadau neu ar gyfer ymchwil)
- i'w defnyddio ar wahanol raddfeydd (yn amrywio o blentyn unigol i boblogaeth)
- ar gyfer plant o wahanol oedrannau, gyda gwahanol alluoedd, gan gynnwys ieithoedd, mewn gwahanol gyd-destunau
- i'w defnyddio gyda gwahanol fethodolegau (fel profi uniongyrchol, mesur, arsylwi plentyn a/neu farn broffesiynol)

Mae amrywiaeth y mesurau a'r dangosyddion datblygiad plant yn ei gwneud yn anodd, ac mewn rhai ffyrdd yn annefnyddiol, cyffredinol ynghylch mesurau. Mae hefyd yn bwysig ystyried nid yn unig y mesur ond hefyd y cyd-destun y caiff ei ddefnyddio ynddo, sut y mae'n cael ei ddefnyddio a'i ddiben, wrth ystyried cwestiynau fel dilysrwydd, dibynadwyedd a chost-effeithiolrwydd. Yn amodol ar y cafeat pwysig hwn, mae'r adolygiad yn nodi rhai canfyddiadau lefel uchel, a drafodir yn yr Adran hon.

4.2. Dilysrwydd a dibynadwyedd gwahanol fesurau

Mae'r adolygiad yn nodi, o ystyried pwysigrwydd datblygiad plant (a drafodir yn Adran 3) a'r costau sy'n gysylltiedig â phroffion ar raddfa fawr (a drafodir isod) bod cymhellion cryf i ddefnyddio mesurau dilys a dibynadwy yn unig. Mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod nifer o astudiaethau sy'n trafod offer, fel Dangosyddion Llythrennedd Cynnar Cyn Oed Ysgol [troednodyn 29], Gwerthusiad Clinigol o Hanfodion Iaith Cyn Oed Ysgol (CELF-P3 UK) [troednodyn 30] a Dangosyddion Dynamig o Sgiliau Llythrennedd Cynnar Sylfaenol (DIBELS) [troednodyn 31], yn rhoi tystiolaeth o ddibynadwyedd a dilysrwydd. O'r 11 o astudiaethau gwerthuso a gynhwyswyd yn yr adolygiad, roedd tua:

[29] Mae'n mesur llythrennedd cynnar, er enghraifft, geirfa ac ymwybyddiaeth ffonolegol a gyflwynir drwy fformat llyfr stori ([Preschool Early Literacy Indicators \(PELI™\): Establishing Benchmark Goals](#)).

[30] Asesiad iaith ar gyfer plant cyn oed ysgol sy'n mesur dealltwriaeth a defnydd o iaith ([Clinical Evaluation of Language Fundamentals Preschool-3 UK](#)). Defnyddir CELF yng Nghymru gan Therapyddion Lleferydd ac iaith a Seicolegwyr Addysgol fel asesiad iaith clinigol safonedig.

[31] Asesiadau byr, safonedig ar gyfer monitro sgiliau darllen a llythrennedd cynnar mewn plant o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 8 ([What is DIBELS?](#)).

- thri chwarter yn dangos dilysrwydd lluniad ^[troednodyn 32]
- dwy ran o dair o ddilysrwydd naratif ^[troednodyn 33] a phŵer gwahaniaethu ^[troednodyn 34]
- un traean, cysondeb mewnol ^[troednodyn 35]
- un rhan o bump, dilysrwydd allanol ^[troednodyn 36]

Fodd bynnag, ar gyfer llawer o'r mesurau a nodwyd gan yr adolygiad, prin oedd y drafodaeth, os o gwbl, o'u rhinweddau seicometrig, fel eu dilysrwydd a'u dibynadwyedd. At hynny (lle y'i trafodwyd), nododd yr adolygiad wendid, er enghraifft:

- dilysrwydd neu ddibynadwyedd offer, gan gynnwys mesurau sydd naill ai heb eu profi neu wedi'u haddasu'n wael ar gyfer cyd-destunau economaidd-gymdeithasol a diwylliannol amrywiol, wedi dyddio, sydd â phŵer gwahaniaethu cyfyngedig neu sy'n agored i ragfarn bosibl mewn adrodd gan arsylwyr
- sut y mae offerynnau/offer yn cael eu defnyddio (er enghraifft, lle maent yn cael eu defnyddio yn anghyson, a all olygu bod y data a gesglir yn annilys a/neu'n annibynadwy)
- samplau (a allai fod yn rhy fach a/neu'n anghynrychioladol) a all ei gwneud yn anodd cyffredinolli canfyddiadau; er enghraifft, er bod y PELI wedi'i nodi fel un sydd â dilysrwydd lluniad cadarn gyda dibynadwyedd cymedrol i gryf, nodwyd problemau hefyd pan gafodd ei ddefnyddio gyda samplau nad oeddent yn gwbl gynrychioliadol o'r poblogaethau a gwmpesir. Er enghraifft, samplau nad ydynt efallai yn cynrychioli grwpiau lleiafrifol yn ddigonol.^[Troednodyn 37]

^[32] Hynny yw, a yw'n mesur yr y lluniad datblygiadol y mae'n anelu at ei fesur?

^[33] Hynny yw, a yw'r canfyddiadau'n cyd-fynd ag arsylwadau neu naratifau yn y byd go iawn?

^[34] Mae pŵer gwahaniaethu yn disgrifio gallu dull neu offeryn ymchwil i wahaniaethu'n ystyrlon rhwng plant â gwahanol lefelau datblygiadol. Gellir ei ystyried yn elfen o ddilysrwydd lluniad; er enghraifft, gallu'r mesur i wahaniaethu rhwng gwahanol lefelau datblygiadol.

^[35] A yw'n mesur yr un lluniad yn ddibynadwy? er enghraifft, a yw alffa Cronbach (a wneir fel arfer drwy SPSS) yn cael ei adrodd?

^[36] Er enghraifft, a ellir cymhwyso'r canfyddiadau i gyd-destunau, lleoliadau a phoblogaethau eraill neu gyfnodau eraill o amser?

^[37] Er enghraifft, mewn un o adolygiadau o'r Unol Daleithiau o asesiadau a sgrinwyr datblygiadol nodwyd bod fod diffyg tystiolaeth seicometrig ar gyfer rhai poblogaethau, fel dysgwyr dwy iaith, plant ag anableddau a phlant Indiaidd America/Brodorion Alaska ([Understanding and choosing assessments and developmental screeners for young children](#)).

Enghreifftiau o ganfyddiadau ar ansawdd seicometrig o'r llenyddiaeth a adolygwyd

Yn gyffredinol, dangosodd yr astudiaethau ddarlun cymysg o ddilysrwydd a dibynadwyedd; er enghraifft:

-creodd astudiaethau archwiliadol setiau eitemau byrrach o'r Raddfa Sgorio Amgylchedd Plentyndod Cynnar (diwygiedig), y Raddfa Sgorio Amgylchedd Plentyndod Cynnar (estynedig), a'r raddfa Cyd-feddwl Parhaus a Lles Emosiynol. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio yn Lloegr gyda phlant 3 i 5 oed ac adroddir bod y setiau byrrach yn dangos addewid ar gyfer gwahaniaethu lleoliadau ac yn cyd-fynd ag arfer a arsylwir. Fodd bynnag, nid oedd yr astudiaethau yn adrodd am gysondeb mewnol, ac argymhellwyd dyblygu annibynnol

-ar gyfer gwyliadwriaeth poblogaeth rhwng 2 a 2.5 oed (er ei fod wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gyda phlant o fis i 5.5 oed), roedd yr Holiadur Oedrannau a Chyfnodau (trydydd argraffiad) yn gallu gwahaniaethu ar draws meysydd datblygiadol ond roedd bylchau mewn cwrpas data arferol a chynrychiolaeth yn cyfyngu hyder mewn cymariaethau lefel ardal

- ar draws adroddiadau effaith SEED, a ddefnyddiodd amrywiaeth o fesurau a ddefnyddir yn Lloegr ar gyfer plant 3 i 7 oed, roedd sensitifrwydd mesur yn bryder gyda chanlyniadau deuaidd fel pasio/methu ffoneg a chyflawniad (neu beidio) o ran yr amrywiad cywasgu 'lefel ddisgwyledig' a'r defnydd o samplau bach a arsylwyd yn gwanhau'r gallu i ddilysu cysylltiadau rhwng ansawdd a chanlyniadau.

- daeth adolygiadau o offer cymdeithasol-emosiynol i'r casgliad, er bod sgrinwyr ^[Troednodyn 38] yn gyflymach i'w gweinyddu nag offerynnau asesu neu sgrinio llawn, roedd yr olaf yn tueddu i fod â thystiolaeth gryfach o ddilysrwydd a dibynadwyedd.

4.3. Costeffeithiolrwydd casglu a defnyddio data

Mae mesur datblygiad plant yn gostus. Mae'n gofyn am ddatblygu a phrofi mesurau cadarn a all fod angen arbenigedd i'w defnyddio'n gywir ac sy'n aml yn cymryd llawer o amser i'w gweinyddu. Pan gaiff ei ddefnyddio ar lefel poblogaeth neu system, mae'r costau'n sylweddol; er enghraifft, adroddir bod y contract ar gyfer cyflwyno'r Gwasanaeth Asesiadau Personol mewn Darllen a Rhifedd yng Nghymru yn werth £20m dros gyfnod o bedair blynedd ([Hysbysiad Dyfarnu GwerthwchiGymru](#)). Bydd costau (ychwanegol) hefyd i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r contract hwn (fel amser staff). Mae'r costau yn creu cymhellion i ddefnyddio systemau data arferol presennol i leihau costau, yn hytrach na chomisiynu arolygon hollol newydd. Dylid nodi y gall defnyddio arolygon sampl yn hytrach nag arolygon cyfrifiad fod yn ddefnyddiol ar gyfer mesur ar lefel poblogaeth neu system. Er bod y dull hwn yn cyflwyno heriau o ran cymharu'r dangosyddion yn ddigonol dros amser o

[38] Mae sgriniwr yn set safonol o eitemau, fel cwestiynau mewn holiadur a/neu dasgau uniongyrchol syml, a fwriedir i'w defnyddio i adnabod plant a allai fod mewn perygl o oedi datblygiadol yn gyflym ac y dylid cynnig asesiad neu gymorth dilynol iddynt.

newid gwirioneddol o'i gymharu â newidiadau sampl a gall olygu nad yw dadansoddiad ar gyfer is-grwpiau yn hyfyw.

Tystiolaeth o'r adolygiad desg ar gostau casglu data

Roedd diffyg data ynghylch costau ariannol ac nid oedd unrhyw ddadansoddiadau economaidd ffurfiol yn yr astudiaethau a gynhwyswyd yn yr adolygiad desg. Yn bennaf, adroddodd astudiaethau ar gostau o ran amser a gwaith i staff, gan gynnwys amser gweinyddu, hyfforddiant ac amllder profion. Roedd y rhain yn amrywio'n sylweddol yn ôl y dulliau a ddefnyddiwyd. Er enghraifft, nododd un o'r astudiaethau yn Awstralia, ([Evaluating resources required to evaluate child outcomes following indirect services in early childhood education centres: A scoping review](#)) nifer o wahanol opsiynau ar gyfer mesur canlyniadau cyfathrebu/iaith, gyda chostau gwahanol o ran amser, gan gynnwys:

*recordiad fideo o ryngweithiadau addysgwr-plentyn, gan amcangyfrif y byddai pob clip 10 i 20 munud yn gofyn am tua 30 i 60 munud i'w godio (felly cyfanswm o 1 i 2 awr, o ystyried dau glip i bob plentyn)

*asesiad uniongyrchol o iaith/lleferydd plant gan ddefnyddio offer fel CELF-P2, a fyddai'n cymryd o leiaf awr i'w weinyddu

*mesurau anuniongyrchol/dirprwyol, fel rhestrau gwirio addysgwyr ar gyfer cyfathrebu plant, neu arsylwi rhieni, lle mae'r amser sydd ei angen yn fach iawn (gan fod trydydd parti, fel addysgwr neu riant neu ofalwr, yn casglu'r data)

er mwyn lleihau'r baich a'r gost, cynigiodd [yr Astudiaeth o Addysg a Datblygiad Cynnar \(SEED\)](#) setiau eitemau byrrach, mwy rhagfynegol, gan nodi y byddai'r rhain yn hwyluso cyfranogiad i wasanaethau a llunwyr polisi; ystyriaeth y mae angen ei chydbwysu â defnyddioldeb a gwerth y data a ddarperir. Er enghraifft, gallai setiau eitemau byrrach fod yn gyflymach i'w gweinyddu, ond hefyd yn llai sensitif.

Mewn perthynas ag effaith (ac felly effeithiolrwydd), nododd rhai astudiaethau a gynhwyswyd yn yr adolygiad y gellid defnyddio mesurau datblygiad plant er mwyn:

- cyfiawnhau a llywio buddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar, drwy alluogi ymchwil neu werthuso sy'n dangos bod addysg gynnar o ansawdd uchel yn codi canlyniadau plant. Er enghraifft, mae'r SEED yn aml yn cael ei awgrymu fel enghraifft o hyn
- cryfhau monitro a gwerthuso darpariaeth y blynyddoedd cynnar, iechyd neu addysg, a allai, er enghraifft, lywio penderfyniadau am fuddsoddiadau, cymorth a/neu heriau
- targedu adnoddau yn fwy effeithiol ac effeithlon, drwy wella adnabod plant ag oedi datblygiadol yn gynnar, a allai nodi anghenion heb eu diwallu ^[troednodyn 39].

[39] Gall oedi datblygiadol fod yn barhaus, wedi'i wreiddio mewn gwahaniaethau biolegol neu ffisiolegol na ellir eu trin na'u newid, neu dros dro os yw, er enghraifft, yn cael ei achosi gan ffactorau amgylcheddol, fel

4.4. Bylchau a gwendidau canfyddedig mewn data datblygiad plant a risgiau sy'n gysylltiedig â'u casglu neu eu defnyddio

Nodwyd amrywiaeth o fylchau, gwendidau a risgiau sy'n gysylltiedig â mesur a defnyddio data datblygiad plant gan randdeiliaid a thrwy'r llenyddiaeth a adolygwyd. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod.

Heriau ymarferol a gweithredol sy'n gysylltiedig â chynllunio offer, fel:

- dibyniaeth ar samplau safonedig sydd wedi dyddio neu samplau a ddatblygwyd mewn gwahanol wledydd, gan godi cwestiynau ynghylch addasrwydd diwylliannol ac ieithyddol
- yr angen i daro cydbwysedd rhwng dilysrwydd a dibynadwyedd offer ag ymarferoldeb eu defnyddio, fel bod casglu data yn ymarferol mewn lleoliadau 'byd go iawn'

Enghreifftiau a nodwyd gan randdeiliaid fel mater yng Nghymru

- Yr angen i offer gael eu haddasu yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol, yn fwyaf arbennig y defnydd o offer iaith Saesneg mewn cenedl amlieithog (gweler paragraff 4.5.)

Gwendid neu gyfyngiad yn y data oherwydd materion cynllunio, fel:

- samplau wedi'u cynllunio'n wael

Enghreifftiau a nodwyd gan randdeiliaid fel mater yng Nghymru:

- y diffyg data sy'n cael eu casglu ar newid dros amser (hynny yw, data hydredol)
- gwahaniaethau mewn blaenoriaethau ar draws y blynyddoedd cynnar, iechyd ac addysg, sy'n golygu bod gwahanol agweddau ar ddatblygiad plant yn cael eu mesur gan wahanol feysydd polisi, a all gyfyngu ar werth data a gesglir mewn un maes polisi i feysydd polisi eraill
- y bwlch mewn data oherwydd rhoi'r gorau i'r defnydd o Broffil y Cyfnod Sylfaen sy'n golygu (fel yr adroddwyd gan un rhanddeiliaid) nad oes mesur cenedlaethol o "barodrwydd ysgolion" yng Nghymru

Gwendid neu gyfyngiadau yn y data a gesglir oherwydd anawsterau gweithredol wrth gasglu data, fel:

- dulliau anghyson o ddefnyddio offer ar draws ysgolion a lleoliadau
- cyfraddau ymateb isel neu adael cyn gorffen mewn astudiaethau hydredol (cyfranogiad yn gostwng dros amser ar draws tonnau astudiaeth), gan ei gwneud yn anodd cymharu canfyddiadau
- methiannau o ran hyfforddi'n ddigonol y rhai sy'n gweinyddu offer

Enghreifftiau a nodwyd gan randdeiliaid fel mater yng Nghymru:

- anghysondebau yn y ffordd y mae datblygiad plant yn cael ei fesur gan staff iechyd fel ymwelwyr iechyd, sydd (fel yr adroddwyd gan un rhanddeiliad) yn cyfyngu ar ei ddefnydd ar lefel poblogaeth neu system ar gyfer comisiynu a/neu werthuso gwasanaethau a rhaglenni. Mewn ymateb, roedd rhai rhanddeiliaid yn eiriol dros safoni'r defnydd o offer presennol, yn hytrach na chanolbwyntio ar geisio datblygu neu ddefnyddio offer newydd

Gwendid, cyfyngiadau neu risgiau yn y ffordd y defnyddir data (hyd yn oed os yw'n ddilys ac yn ddibynadwy; er enghraifft:

- y risg bod mesur yn ystumio ymarfer (er enghraifft, 'addysgu at y prawf')
- tynnodd llawer o astudiaethau sylw at faterion priodoli gan ei bod, hyd yn oed pan fesurwyd ffactorau cefndir, yn aml yn dal yn heriol ynysu effeithiau ymyrraeth oddi wrth ffactorau eraill, fel addysg gynnar, dylanwad y teulu a'r cartref
- trin canlyniad sgrinio fel diagnosis neu lle mae defnyddwyr yn camddehongli data (er enghraifft, o ganlyniad i effeithiau disgwyliad ^[troednodyn 40])
- gall fod yn anodd (yn aml yn amhosibl) cyfuno neu gymharu data a goladwyd gan ddefnyddio gwahanol offer

Enghreifftiau a nodwyd gan randdeiliaid fel mater yng Nghymru:

- Pryderon bod mesuriadau yn arwain ymarferwyr i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cael ei fesur, yn hytrach na'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn neu ar gyfer y plentyn (sy'n bryder arbennig o ystyried y risg mai dim ond yr hyn sy'n cael ei fesur sy'n cael ei werthfawrogi neu ei ystyried yn bwysig)
- mae deall ac asesu datblygiad plant yn cael ei leihau i fesurau unigol (wedi'i gymharu gan un rhanddeiliad â gweld plant fel "bagiau o ganlyniadau")

[40] Mae effeithiau disgwyliad yn disgrifio sut mae disgwyliadau neu gredoau ymarferydd am blentyn unigol neu grŵp o blant yn dylanwadu ar y ffordd y caiff canlyniadau'n cael eu dehongli.

- mae mesur yn stigmatiddio'r plant hynny sy'n 'methu' bodloni cerrig milltir datblygu neu symud ymlaen yn ôl y disgwyl, drwy ganolbwyntio ar eu diffygion, yn hytrach na'u cryfderau
- gall seilos data sy'n gwahanu iechyd, addysg a gofal cymdeithasol arwain at golli cyfleoedd a grëwyd gan y diffyg data cysylltiedig. Mewn ymateb, roedd rhanddeiliaid yn argymhell creadigrwydd wrth ddefnyddio data, archwilio setiau data presennol a gwella rhannu data (er enghraifft, drwy ddefnyddio'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) yn llawnach (gweler y testun mewn blwch).

Cysylltu Data: SAIL

Mae'r Banc Data [Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw](#) (SAIL), sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Abertawe, yn cysylltu data o sawl ffynhonnell gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ddiogel (er enghraifft, iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, tai). Mae dynodyddion personol yn cael eu dileu, a gwneir data yn ddienw a'u cysylltu ar lefel unigol gan ddefnyddio technegau diogelu preifatrwydd. Gall ymchwilwyr gael mynediad at y data mewn amgylchedd digidol diogel iawn er mwyn cynnal astudiaethau cymeradwy mewn meysydd fel datblygiad plant; er enghraifft:

- Mae SAIL yn galluogi ymchwil hydredol sy'n olrhain datblygiad plant o'u genedigaeth drwy systemau addysg ac iechyd
- Mae SAIL yn cefnogi tystiolaeth ar effaith rhaglenni blynyddoedd cynnar (er enghraifft, Dechrau'n Deg, Rhaglen Plant Iach Cymru) a ffactorau economaidd-gymdeithasol ar ganlyniadau plant, ac mae canfyddiadau ymchwil sy'n seiliedig ar SAIL wedi llywio polisi Llywodraeth Cymru ar anghydraddoldebau iechyd, addysg a llesiant plant.

Ffynhonnell: [The SAIL Databank: building a national architecture for e-health research and evaluation](#)


Fodd bynnag, er bod SAIL yn blatfform pwerus ar gyfer ymchwil data cysylltiedig, mae'r cwmpas i'w ddefnyddio yn dibynnu ar y data sydd ganddo (ac mae'n dibynnu'n llwyr ar sefydliadau allanol i gasglu a chyflenwi'r data sydd ganddo). Felly, fel y nododd un cyfrannwr, "hyd yn oed gyda SAIL, rydym yn wynebu heriau wrth werthuso ymyriadau blynyddoedd cynnar oherwydd problemau gyda data datblygiad plant (e.e. data cyrhaeddiad addysg cyfyngedig islaw lefel TGAU a materion ansawdd data gyda rhywfaint o'r data iechyd)".

4.5. Mesur datblygiad plant mewn gwlad ddwyieithog ac amlieithog

Mewn gwlad ddwyieithog fel Cymru, adroddodd rhanddeiliaid heriau penodol mewn perthynas â normau datblygu iaith, ond hefyd mewn perthynas â meysydd eraill lle mynegwyd dangosyddion yn Saesneg. Gallai rhai dangosyddion, fel mesurau pwysau, taldra neu ymddygiad (fel gwenu am y tro cyntaf neu gymryd y camau cyntaf) gael eu cyfieithu'n uniongyrchol o'r Saesneg i iaith arall, y Gymraeg yn fwyaf cyffredin, ond i ieithoedd eraill hefyd. Fodd bynnag, i eraill, yn enwedig mewn perthynas â normau iaith, adroddwyd ei fod

yn fwy cymhleth na hyn. Pwysleisiwyd hyn yn bennaf mewn perthynas â'r Gymraeg, ond mae nifer y dysgwyr nad yw'r Saesneg na'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt yn cynyddu, sy'n golygu bod yr heriau sy'n gysylltiedig â mesur datblygiad plant yn y grŵp hwn hefyd yn cynyddu. Fel y dengys Siart 4.1, mae cyfanswm nifer y dysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol wedi cynyddu bron 50% dros y 10 mlynedd diwethaf, er bod cyfanswm nifer y dysgwyr mewn ysgolion wedi aros yn sefydlog yn fras dros y cyfnod hwn ^[troednodyn 41].

Siart 4.1: Nifer y dysgwyr Saesneg fel iaith ychwanegol/Cymraeg fel iaith ychwanegol 5 oed a throsodd yn yr ysgol ym mhob rhanbarth o Gymru, 2015/16 i 2024/25



Nodyn: effeithiwyd ar y CYBLD gan y pandemig yn y blynyddoedd hyn.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), [StatsCymru: Disgyblion 5 oed a throsodd gydag iaith gyntaf sy'n wahanol i Saesneg neu Gymraeg, yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn](#)

Mae'r materion a godwyd wrth fesur datblygiad iaith plant dwyieithog ac amlieithog ^[troednodyn 42] yn cael eu trafod ymhellach yn yr [adolygiad o sgrinio iaith gynnar](#). Mae'n nodi y gellir colli “agweddau iaith-benodol, megis trefn geiriau a strwythurau gramadegol penodol” neu, pan fydd gwerthusiad “ar sail yr hyn a ddisgwylir o fewn datblygiad nodweddiadol”, efallai na fydd hyn yn feincnod priodol i gymharu plant â “phrofiadau ieithyddol a diwylliannol gwahanol” iawn yn erbyn hynny (ibid., tudalen 21).

4.6. Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at gynlluniau ar gyfer y dyfodol ym mhob un o'r tri phrif faes polisi a ystyriwyd, sy'n debygol o lunio'r dirwedd yn y dyfodol. Yn benodol, adroddwyd:

[41] Nid yw'r CYBLD yn cipio gwybodaeth gyfatebol ar gyfer dysgwyr sydd â'r Gymraeg fel iaith ychwanegol. Amcangyfrifodd astudiaeth yn 2014 fod rhwng 460 a 240 o ddysgwyr â'r Gymraeg fel iaith ychwanegol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a rhwng 228 a 430 o ddysgwyr â'r Gymraeg fel iaith ychwanegol mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ([Cymraeg fel iaith ychwanegol](#)).

[42] Mae plant dwyieithog yn gallu cynhyrchu dwy iaith, fel y Gymraeg a'r Saesneg ac mae plant amlieithog yn gallu cynhyrchu mwy na dwy iaith ([Adolygiad o sgrinio iaith gynnar](#)).

- ym maes iechyd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi comisiynu ymchwil i edrych ar y sylfaen dystiolaeth o amgylch nifer o offer y cytunwyd arnynt, gyda'r nod o wneud argymhellion ynghylch sut y gellid gwella arfer presennol. Yn ogystal, mae [grŵp ymchwil Prosiect Pengwin](#) yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru i ddatblygu offer ac adnoddau a fydd yn cefnogi ymarferwyr iechyd, addysg a gofal plant i adnabod a chefnogi plant sydd ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu neu sydd mewn perygl o ddatblygu anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar
- mae tîm y Blynyddoedd Cynnar wedi nodi'r angen i barhau i wella llwybrau datblygiadol, gan gynnwys cyhoeddi [Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Trefniadau Asesu ar gyfer Babanod a Phlant Bach 0 i 3 oed yng Nghymru](#). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn archwilio'n weithredol sut y gellid defnyddio data a gesglir o fewn SAIL i lywio anghenion ymchwil a thystiolaeth barhaus ynghylch rhaglenni blynyddoedd cynnar. Mae hefyd yn gweithio i wella ansawdd y data a gesglir ar raglenni blynyddoedd cynnar a sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi yn SAIL
- mewn addysg 3 i 16 oed, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu [ecosystem data a gwybodaeth](#) newydd sy'n "seiliedig ar ystod ehangach o ddata a gwybodaeth i gefnogi'r tair swyddogaeth, sef hunanwerthuso a gwella, atebolrwydd, a thryloywder"

5. Casgliadau

5.1. Beth sy'n diffinio datblygiad plant a'i elfennau?

Mae'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon a'r llenyddiaeth a adolygwyd yn cytuno bod datblygiad plant yn disgrifio'r dilyniant o newidiadau sy'n digwydd mewn plentyn o'i genhedlu hyd at fod yn oedolyn. Mae'r newidiadau gwahanol hyn fel arfer yn cael eu grwpio i "feysydd" datblygu sy'n gorgyffwrdd, fel corfforol, cymdeithasol ac emosiynol, lleferydd, iaith a chyfathrebu a gwybyddol. Deellir bod y newidiadau hyn yn ganlyniad i ryngweithiadau dynamig rhwng y plentyn a'i amgylchedd cyfagos.

Fodd bynnag, er bod rhanddeiliaid yn cytuno â'r diffiniad lefel uchel hwn o ddatblygiad plant, mae gwahaniaethau o hyd yn y pwyslais a roddir ar wahanol feysydd, grwpio gwahanol newidiadau i feysydd a'r gyfundrefn enwi a ddefnyddir ar gyfer meysydd. Yn fwy sylfaenol, mae'r adolygiad hefyd yn nodi gwahaniaeth cysyniadol yn y ffordd y mae datblygiad plant yn cael ei ddeall ar draws meysydd polisi yng Nghymru; a yw'n cael ei ddeall fel:

- dilyniant o newidiadau y disgwylir i'r rhan fwyaf o blant fynd drwyddynt, lle mae gwriad o'r norm hwn yn achos pryder?
- dilyniant o newidiadau sy'n wahanol o blentyn i blentyn a lle, yn hytrach nag un llwybr datblygiadol sy'n 'norm' yn yr ystyr normadol a'r ystyr ystadegol hefyd, ystyrir amrywiaeth y llwybrau yn naturiol ac yn normal, fel mathau eraill o amrywiaeth fiolegol neu gymdeithasol-ddiwylliannol, yn hytrach na diffygion neu achos pryder?

Mae rhai fframweithiau a meysydd polisi yn mabwysiadu model mwy normadol, gan ystyried datblygiad fel dilyniant rhagweladwy o gerrig milltir y gellir mesur cynnydd plant yn eu herbyn, ac mae eraill yn mabwysiadu model mwy lluosogol, gan gydnabod llwybrau datblygiadol amrywiol, aflinol (a lluosogol) wedi'u llunio gan wahaniaethau unigol, diwylliannol a niwroddatblygiadol.

Mae dyfarnu rhwng y ddau safbwynt hyn y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn. At hynny, fel y mae Adran 3 yn amlinellu, gall hyn fod yn ddewis anghywir, oherwydd gellir deall y ddau safbwynt hyn fel dau ben continwwm. Felly, er ei bod yn ymddangos bod newid tuag at gysyniadau mwy lluosogol, roedd rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr astudiaeth hon:

- yn dal i ystyried normau datblygiadol fel "pwyntiau cyfeirio"
- yn croesawu amrywiaeth o ran cyflymder a natur llwybrau datblygiadol, ond ni ddaethant i'r casgliad bod pob llwybr datblygiadol yr un mor ddymunol. Nid oeddent ychwaith yn awgrymu y dylid anwybyddu cyfleoedd i fynd i'r afael ag oedi neu ddiffygion datblygiadol mewn meysydd fel lleferydd, iaith a chyfathrebu

At hynny, pan symudodd y safbwynt o ganolbwyntio ar blentyn unigol i boblogaeth, a gwahaniaethau unigol yn cael eu trosi i ddosbarthiadau gwerthoedd ar draws y boblogaeth gyfan, mae achos cryf dros fesur i nodi a yw hyn yn newid dros amser a sut. Mae hon yn wybodaeth bwysig a all helpu i lywio comisiynu a gwerthuso gwasanaethau.

Mae'r safbwyntiau gwahanol hyn ynghyd ag amrywiadau mewn arferion mesur yn helpu i esbonio pam nad yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio (neu nad oes ganddi) un diffiniad o ddatblygiad plant, neu fesur o ddatblygiad plant, er gwaethaf pwysigrwydd datblygiad plant i amrywiaeth o bolisïau a thimau Llywodraeth Cymru.

Gwnaeth yr astudiaeth hon hefyd nodi (ond ni adolygu) nifer o fesurau o ymddygiad neu ganlyniadau plant, fel arolygon SHRN a HAPPEN. Mae'r ymddygiad neu'r canlyniadau hyn yn gysylltiedig â datblygiad plant, naill ai gan fod ffactorau sy'n cyfrannu at ddatblygiad plant, fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a rhianta neu lesiant, yn ganlyniadau y mae datblygiad plant yn cyfrannu atynt, ond nad ydynt ynddynt eu hunain yn fesurau datblygiad plant.

5.2. Nodweddion dangosyddion a mesurau datblygiad plant ar gyfer plant 2 i 11 oed

Gellir defnyddio dangosyddion a mesurau datblygiad plant at bedwar prif ddiben, sef:

- adnabod plant nad ydynt yn datblygu ar y gyfradd ddisgwyliedig, gan alluogi ymyrraeth gynnar a llywio penderfyniadau am gomisiynu gwasanaethau, drwy brofi gwell dealltwriaeth o angen
- mesur datblygiad neu “gynnydd” dros amser ac, er enghraifft, llywio addysgu a dysgu, (ond y gellid eu defnyddio hefyd ar gyfer gwerthuso)
- mesur canlyniadau ar adeg mewn amser, y gellir eu defnyddio, er enghraifft, er mwyn helpu i werthuso effeithiolrwydd polisïau, rhaglenni ac ymyriadau
- archwilio sut a pham mae plant yn datblygu, megis ymchwil sy'n trafod sut y mae profiadau cynnar yn llunio canlyniadau diweddarach, gan gynnwys cyrhaeddiad academiaidd, iechyd a llesiant

Mae pob diben yn bwysig a gellir defnyddio un o fesurau datblygiad plant at fwy nag un diben. Fodd bynnag, fel y trafodwn isod, efallai na fydd mesur datblygiad plant a ddatblygwyd at un diben yn addas ar gyfer un arall a gwelwyd y gall defnyddio mesurau at ddibenion anfwriadol gael canlyniadau anfwriadol. Y brif enghraifft a roddwyd o hyn, oedd y ffordd y teimlwyd bod y defnydd o ddata asesu addysgol y gellid ei ystyried yn fesur o ddatblygiad plant (er ei fod yn fesur cul), fel mesur o atebolrwydd, wedi ystumio addysgu a dysgu. Felly, fel y mae Adran 3 yn amlinellu, mae Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn glir na ddylid defnyddio data asesu ar gyfer atebolrwydd, er y gellir eu defnyddio er mwyn helpu i lywio hunanwerthuso.

Oherwydd y dylai ffurf ddilyn swyddogaeth, mae gwahaniaethau mewn diben (a amlinellwyd uchod) a hefyd yn y ffordd y mae datblygiad plant yn cael ei gysyniadu (hynny yw, o ran normau neu amrywiaeth), yn cyfrannu at wahaniaethau yn y ffordd y caiff datblygiad plant ei fesur. Er enghraifft:

- ym maes iechyd, er mwyn adnabod plant nad ydynt yn datblygu ar y gyfradd ddisgwyliedig, cynhelir sgrinio gan ddefnyddio offer safonedig

- mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac addysg, lle mae asesiadau ffurfiannol wedi'u personoli ac yn unigol i'r plentyn, gyda ffocws ar ddeall cynnydd a chwrdd â phob plentyn lle mae, gan ganolbwyntio ar ei gryfderau yn hytrach na'i wendidau

5.3. Pwysigrwydd dangosyddion a mesurau datblygiad plant a'r defnydd effeithiol ohonynt

Fel y mae Adran 3 yn amlinellu, mae blynyddoedd cynnar plentyn yn hanfodol i ddatblygiad plant. Maent yn gosod y sylfeini ar gyfer datblygiad plant yn y dyfodol a'u cyfleoedd bywyd, gan alluogi plant i ffynnu a chyflawni eu potensial drwy gydol eu bywydau. Mae cyflymder, maint a natur y datblygiad yn cael ei lunio gan y rhyngweithio dynamig rhwng y plentyn unigol a'i amgylchedd. Felly, mae cyfleoedd i lunio'r amgylchedd er mwyn cefnogi datblygiad plant drwy, er enghraifft, gymorth ar gyfer rianta a buddsoddi mewn gwella mynediad at ofal plant ac addysg gynnar o safon.

Fodd bynnag, mae'r tensiwn hirsefydlog yn parhau rhwng:

- y ffyrdd y gall mesur (fel yr amlinellwyd uchod) gael canlyniadau anfwriadol drwy ystumio ymarfer, a all niweidio'r hyn sy'n cael ei fesur drwy, er enghraifft, annog 'addysgu at y prawf' a chyfyngu'r ffocws i'r hyn y gellid ei fesur yn hawdd ac yn systematig, yn hytrach na'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn neu ar gyfer y plentyn, a allai niweidio datblygiad y plentyn
- gall y ffyrdd y mae peidio â mesur yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn neu ar gyfer y plentyn olygu bod hyn yn cael ei esgeuloso neu ei ddadflaenoriaethu. Fel y dywedodd un rhanddeiliad, "mae'r hyn sy'n cael ei fesur yn cael ei fonitro ac yn cael ei reoli. Ac ar hyn o bryd nid ydym yn ei fesur ac nid ydym yn ei reoli". Yn fwy eang, adroddwyd y gall symud i ffwrdd o fesur safonedig o ddatblygiad plant ar lefelau system neu boblogaeth, gyfyngu'r wybodaeth sydd ar gael i lywio cynllunio, comisiynu, monitro a gwerthuso polisïau a rhaglenni [Troednodyn⁴³]. Nodwyd hyn gan rhanddeiliaid fel gwendid allweddol yn ecosystem tystiolaeth datblygiad plant Cymru

Mae cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn dangos rhai o'r tensiynau hyn. Mae ei gyflwyno yn golygu nad yw data safonedig bellach yn cael eu casglu ar lefel system genedlaethol ac mae hyn wedi cyfyngu ar y cwrpas i ddefnyddio data ar elfennau o ddatblygiad plant a gynhyrchir gan leoliadau addysg i werthuso canlyniadau neu gynnal ymchwil ar lefel genedlaethol neu system [Troednodyn⁴⁴]. Er enghraifft, defnyddiwyd Proffil y Cyfnod Sylfaen fel sail ar gyfer [Dangosydd Cenedlaethol Cymru](#) ar ddatblygiad plant nes iddo gael ei ddirwyn i ben yn 2022, pan gyflwynwyd y cwricwlwm newydd. Fel enghraifft o effaith hyn, adroddodd rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr astudiaeth dystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod y

[⁴³] Serch hynny, mae'n bwysig nodi hefyd bod rhanddeiliaid yn adrodd bod y defnydd anghyson o offer iechyd yn cyfyngu ar eu defnydd i asesu angen neu werthuso canlyniadau ar lefel poblogaeth neu system (gan ddangos y gall cyflwyno offer safonedig fod yn amod angenrheidiol, ond nid yn ddigonol ar gyfer gwerthuso angen neu ganlyniadau ar lefel poblogaeth neu system).

[⁴⁴] Adroddodd rhanddeiliaid nad oedd Cwricwlwm i Gymru wedi'i gynllunio ar gyfer datblygiad plant. Mae'n cynnwys agweddau ar ddatblygiad plant, ond mae'n gwrwllwm. Serch hynny, ar lefel ysgol, mae disgwyl i ysgolion o hyd werthuso canlyniadau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr a gallant, er enghraifft, gynnal eu hymchwyl eu hunain.

pandemig wedi effeithio ar yr hyn a ystyriwyd yn batrymau 'normal' o ddatblygiad plant. Fodd bynnag, yn absenoldeb mesur, nid oedd yn bosibl gwirio a oedd hyn yn wir ai peidio. Felly, fel y dywedodd un cyfrannwr, "Ni allaf bwysleisio digon mor broblematic yw colli data [Proffil y Cyfnod Sylfaen] ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar."

Fel yr amlinellir yn Adran 3, mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Cwricwlwm i Gymru hefyd yn dangos y tensiwn rhwng defnyddio mesurau datblygiad plant i lywio asesiad ffurfiannol parhaus o blentyn unigol a defnyddio mesurau datblygiad plant i fesur canlyniadau penodol yn systematig ar lefel poblogaeth. Fel y mae'r [Canllawiau gwellu ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd](#) yn nodi "Er y gellir defnyddio gwybodaeth yn deg at sawl diben^[Troednodyn45], mae'n bwysig bod y ffordd y mae'n cael ei defnyddio yn briodol. Yn benodol, mae [Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu](#) yn glir mai "Diben asesu o fewn Cwricwlwm i Gymru yw cefnogi cynnydd dysgwyr unigol" ac felly, "Ni ddylid cynnal asesiadau at ddibenion atebolrwydd", er y gellir ei ddefnyddio o hyd i lywio a chefnogi gwelliant, ar lefel unigolion, grwpiau a lleoliadau. Mae hyn wedi arwain at newidiadau mewn asesu ac wedi lleihau'n sylweddol y swm hwnnw o wybodaeth sydd ar gael ar lefel system neu boblogaeth ar gynnydd dysgwyr.

Mae'r newidiadau hyn i asesu mewn lleoliadau addysg yn helpu i esbonio pam, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar, mae bwloch canfyddedig mewn data ar ddatblygiad plant plant 2 i 11 oed, er gwaethaf swm y data a gesglir gan wasanaethau iechyd ac addysg ar ddatblygiad y plant hyn. Mae'r gwahaniaethau hyn yn y ffordd y mesurir datblygiad plant hefyd yn golygu, er bod datblygiad plant yn ganolog i bob un o'r tri phrif faes polisi a ystyrir gan yr adolygiad hwn (y blynyddoedd cynnar, iechyd ac addysg), fel y dywedodd un rhanddeiliad, mae rhywfaint o "ddatgysylltu" rhwng meysydd polisi.

Nid tensiynau newydd yw'r rhain ac mae gwaith yn mynd rhagddo, o ganlyniad i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, i ddatblygu mesurau canlyniadau ar gyfer addysg (gweler [Ymchwil: Archwilio system wybodaeth newydd ar gyfer ysgolion](#) ac [ymateb Llywodraeth Cymru](#)), o ystyried y bylchau canfyddedig mewn mesurau ar lefel poblogaeth a system. Her allweddol yma yw bod mesur datblygiad plant yn systematig yn gostus ac mae capasiti cyfyngedig mewn gwasanaethau yn ei gwneud yn anodd casglu data ychwanegol. Mewn cyferbyniad, pan fo'r nod yw nodi a yw plant yn datblygu ar y gyfradd ddisgwyliedig ai peidio, i alluogi ymyrraeth gynnar neu i gefnogi cynnydd pob plentyn mewn dysgu, mae arolygon cyfrifiad yn briodol.

Nododd rhanddeiliaid hefyd, os mai diben mesur datblygiad plant yw gwerthuso canlyniadau, mae'n bwysig cael dealltwriaeth ddamcaniaethol gadarn o'r canlyniadau a ragwelir (neu a ddisgwyliir) os yw rhaglen neu ymyrraeth yn effeithiol, a pha ganlyniadau sydd angen eu mesur i asesu'r effeithiolrwydd hwnnw. Mae hyn yn cysylltu â'r drafodaeth yn

[45] Er enghraifft, mae'r [Canllawiau gwellu ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd](#), yn nodi "tri phrif ddiben ar gyfer defnyddio gwybodaeth yn y system newydd": "Gwella", "atebolrwydd" a "thryloywder". Mae hyn ochr yn ochr â [Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu](#), sy'n nodi bod "asesu yn chwarae tair prif ran yn y broses o alluogi cynnydd dysgwyr": "cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd"; "nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser" a "deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion."

Adran 3 am beth yw datblygiad plant, rôl ffactorau ffisiolegol ac amgylcheddol wrth lunio datblygiad plant, a mathau eraill o fesurau, fel mesurau llesiant a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sy'n gysylltiedig â datblygiad plant, ond nid yn gyfystyr â hynny. Mae dealltwriaeth ddamcaniaethol gadarn o sut y mae disgwyl i bolisi, rhaglenni a/neu ymyriadau ddylanwadu ar y gwahanol ffactorau neu ganlyniadau hyn a/neu ryngweithio â nhw yn ganolog i ddeall sut i'w gwerthuso. Gwelwyd bod defnyddio mesurau neu ddata presennol - efallai nad ydynt yn cipio'r amrywiaeth llawn o ganlyniadau disgwyliedig - fel mesurau canlyniadau, yn peryglu creu asesiadau anghyflawn o effeithiolrwydd rhaglenni. Fodd bynnag, gall hefyd fod risgiau, pan fydd gwerthuso dim ond yn mesur yr hyn a ddisgwylir ac felly o bosibl yn colli canlyniadau annisgwyl.

5.4. Dilysrwydd, dibynadwyedd a chosteffeithiolrwydd mesurau

Fel y mae Adran 4 yn amlinellu, mae amrywiaeth y mesurau a'r dangosyddion datblygiad plant yn ei gwneud yn anodd, ac mewn rhai ffyrdd yn anefnyddiol, cyffredinol ynghylch mesurau. Mae hefyd yn bwysig ystyried nid yn unig y mesur, ond hefyd y cyd-destun y caiff ei ddefnyddio ynddo, sut mae'n cael ei ddefnyddio a'i ddiben, wrth ystyried cwestiynau fel dilysrwydd, dibynadwyedd a chosteffeithiolrwydd. Er enghraifft, fel y mae Adran 4 yn amlinellu:

- gall dilysrwydd a dibynadwyedd mesurau fod yn gryf pan fyddant yn cael eu defnyddio gyda rhai grwpiau neu boblogaethau, ond efallai na fydd mesurau wedi'u profi i'w defnyddio gyda grwpiau eraill (fel grwpiau lleiafrifol, neu grwpiau ag ieithoedd neu ddiwylliannau gwahanol)
- gall gwendidau mewn samplu a/neu weinyddu offer amharu ar ddilysrwydd a dibynadwyedd mesurau
- mae costeffeithiolrwydd mesurau yn dibynnu ar gost mesur a'r defnydd o'r data a gynhyrchir ganddo. Er enghraifft, gellir ystyried bod hyd yn oed mesur costus iawn sy'n cynhyrchu data sy'n gallu llywio datblygu rhaglenni (sydd fel arfer yn llawer mwy costus na mesurau), gan gynyddu eu heffeithiolrwydd, yn gosteffeithiol iawn

At hynny, gellir mesur effeithiolrwydd mewn gwahanol ffyrdd (fel dilysrwydd a dibynadwyedd, defnyddioldeb polisi, neu dderbyniad ymarferwyr).

Yn ddarostyngedig i'r cafeatau pwysig hyn, mae'n amlwg bod cryfder seiliau tystiolaeth sy'n sail i wahanol fesurau yn amrywio. At hynny, fel y mae Adran 4 yn amlinellu, ar gyfer llawer o'r mesurau a nodwyd, prin, os o gwbl, oedd y drafodaeth am eu dilysrwydd a'u dibynadwyedd yn y llenyddiaeth a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn. Mae hefyd yn amlwg bod costau casglu data systematig yn sylweddol.

O ystyried costau datblygu mesurau newydd a chasglu data, mae cymhelliant clir i ddefnyddio mesurau a data presennol. Fel y mae Adran 4 yn amlinellu, gallai hyn gynnwys datblygu cysylltu a rhannu data, sy'n cael ei ystyried fel ffordd bosibl o gynhyrchu tystiolaeth ar effaith rhaglenni blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, mae banciau data fel SAIL (sy'n galluogi cysylltu data) dim ond yn galluogi cysylltu data sy'n cael eu huwchlwytho i'r banc data. Os nad yw datblygiad plant yn cael ei fesur yn systematig (neu os nad yw'r data a

gynhyrchir gan fesur yn cael eu huwchlwytho), ni all cysylltu data lenwi bylchau yn hudolus, lle nad oes data i gysylltu ag ef.

Os na ellir llenwi bylchau drwy gysylltu data gweinyddol a/neu ymchwil presennol, efallai y bydd angen casglu data newydd ar ddatblygiad plant. Mewn perthynas â hyn, mae'r adolygiad yn nodi, o ystyried amrywiaeth mesurau a dangosyddion datblygiad plant, wrth ddewis mesur penodol, ei bod yn bwysig nodi'r cysyniad o ddatblygiad plant a diben y mesur yn gyntaf. Yna mae'n bwysig nodi nodweddion mesurau sy'n ofynnol ar gyfer y cysyniad hwnnw a diben mesur. Mae cwestiynau ymarferol ychwanegol, megis nodweddion y plant i'w mesur (er enghraifft, o ran iaith ac oedran) sydd angen eu hystyried cyn penderfynu pa fesurau a data presennol y dylid eu defnyddio, a/neu a oes angen offer a mesurau data newydd.

Llyfryddiaeth

Bronfenbrenner U (1979), 'The Ecology of Human Development: Experiments by Nature and Design', Cambridge, MA: Harvard University Press

Thompson, R. A., a Lagattuta, K. H. (2006). *Feeling and understanding: Early emotional development*. Yn W. Damon ac R. M. Lerner (Golygyddion), Handbook of Child Psychology (6ed rhifyn, Cyfrol. 3: Social, Emotional, and Personality Development) (tt. 317–352). Wiley.

Atodiad A. Rhestr o offer a dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad

Offeryn

Hunanadroddiadau Ieuencid, Oedolion Ifanc ac Oedolion Achenbach

Ffynhonnell/ffynonellau

Causadias J, Salvatore J, Sroufe L (2015), 'Early patterns of self-regulation as risk and promotive factors in development: A longitudinal study from childhood to adulthood in a high-risk sample', International Journal of Behavioral Development

Offeryn

System Asesu Ymddygiad Addasol - Ail Argraffiad (ABAS-II)

Ffynhonnell/ffynonellau

Gokiert R, Georgis R, Tremblay M, Krishnan V, Vandenberghe C, Lee C (2014), 'Evaluating the Adequacy of Social-Emotional Measures in Early Childhood', Journal of Psychoeducational Assessment

Offeryn

Holiaduron Oedran a Chyfnodau, Trydydd Argraffiad (ASQ-3)

Ffynhonnell/ffynonellau

Bedford H, Walton S, Ahn J (2013), 'Measures of Child Development: A review', Sefydliad Iechyd Plant UCL

Bonin E, Matosevic T, Beecham J (2016), 'Developing an early years Outcomes Framework using area-level routine data', wedi'i ariannu gan y Loteri Fawr

Bruce M, Salva J, Bell M (2023), 'From terrible twos to sassy sixes: The development of vocabulary and executive functioning across early childhood', Developmental Science, Wiley

Halle T, Zaslow M, Wessel J, Moodie S, Darling-Churchill K (2011), 'Understanding and choosing assessments and developmental screeners for young children: Proffiliau o fesurau dethol', adalwyd o'r Office of Planning, Research, and Evaluation, Administration for Children and Families, U.S. Department of Health and Human Services

Swyddfa Gwell a Iechyd a Gwahaniaethau (2021), 'Child development outcomes at 2 to 2½ years (Experimental Statistics)', Swyddfa Gwell a Iechyd a Gwahaniaethau.

Swyddfa Gwell a Iechyd a Gwahaniaethau (2025), 'Child development outcomes at 2 to 2 and a half years, 2023 to 2024: statistical commentary, Official Statistics'

Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2015), 'Feasibility study: developing the capability for population surveillance using indicators of child development outcomes aged 2 to 2 and a half years', Iechyd Cyhoeddus Lloegr

Tinajero A R, Loizillon A (2012), 'The Review of Care, Education and Child Development Indicators in Early Childhood', Environmental Research and Public Health

Offeryn

HOLIADURON OEDRAN A CHYFNODAU: CYMDEITHASOL-EMOSIYNOL (ASQ:SE)

Ffynhonnell/ffynonellau

Gokiart R, Georgis R, Tremblay M, Krishnan V, Vandenberghe C, Lee C (2014), 'Evaluating the Adequacy of Social-Emotional Measures in Early Childhood', Journal of Psychoeducational Assessment

Halle T, Zaslow M, Wessel J, Moodie S, Darling-Churchill K (2011), 'Understanding and choosing assessments and developmental screeners for young children: Proffiliau o fesurau dehol', adalwyd o'r Office of Planning, Research, and Evaluation, Administration for Children and Families, U.S. Department of Health and Human Services

Lysons J, Pineda R M, Alarcon G, Aquino M R J, Cann H, Fearon P, Kendall S, Kirman J, Woodman J (2024), 'Measuring child development at the 2-2½ year health and development review', National Institute for Health and Care Research (NIHR) Child and Family Policy Research Unit

Offeryn

ALLITERATION 2.0

Ffynhonnell/ffynonellau

Wackerle-Hollman A, Schmitt B, Bradfield T, Rodriguez M, McConnell S (2013), 'Redefining Individual Growth and Development Indicators: Phonological Awareness', Journal of Learning Disabilities

Offeryn

GWYBODAETH AM YR WYDDOR (ADNABOD SAIN)

Ffynhonnell/ffynonellau

McConnell S, Wackerle-Hollman K, Roloff T, Rodriguez M (2015), 'Designing a Measurement Framework for Response to Intervention in Early Childhood Programs', Journal of Early Intervention.

Offeryn

DANGOSYDDION ANTHROPOMETRIG

Ffynhonnell/ffynonellau

Australian Institute of Health and Welfare (2011), 'National outcome measures for early child development: Development of an indicator-based reporting framework', Australian Institute of Health and Welfare

Bonin E, Matosevic T, Beecham J (2016), 'Developing an early years Outcomes Framework using area-level routine data', wedi'i ariannu gan y Loteri Fawr

Causadias J, Salvatore J, Sroufe L (2015), 'Early patterns of self-regulation as risk and promotive factors in development: A longitudinal study from childhood to adulthood in a high-risk sample', International Journal of Behavioral Development

Peacock S, Konrad S, Watson E, Nickel D, Muhajarine N (2013), 'Effectiveness of home visiting programs on child outcomes: a systematic review', BMC Public Health

van Ekris E, Altenburg T M Singh A S, Proper K I, Heymans M W, Chinapaw M J (2016), 'An evidence-update on the prospective relationship between childhood sedentary behaviour and biomedical health indicators: a systematic review and meta-analysis', Obesity Reviews, 17(9), tudalennau 833 i 849

Offeryn

GRADDFA RHYNGWEITHIO GOFALWYR ARNETT

Ffynhonnell/ffynonellau

Gordon R A, Fujimoto K, Kaestner R, Korenman S, Abner K (2013), 'An assessment of the validity of the ECERS-R with implications for measures of child care quality and relations to child development', Developmental Psychology, 49(1), tudalen 146

Offeryn

ARS- LLYTHRENNEDD IAITH

Ffynhonnell/ffynonellau

Perlman M, Falenchuk O, Fletcher B, McMullen E, Beyene J, Shah P S (2016), 'A systematic review and meta-analysis of a measure of staff/child interaction quality (the classroom assessment scoring system) in early childhood education and care settings and child outcome', PLOS One, 11(12), Erthygl e0167660

Offeryn

ASESIAD CYMDEITHASOL-EMOSIYNOL BYR BABANOD A PHLANT BACH (BITSEA)

Ffynhonnell/ffynonellau

Gokiart R, Georgis R, Tremblay M, Krishnan V, Vandenberghe C, Lee C (2014), 'Evaluating the Adequacy of Social-Emotional Measures in Early Childhood', Journal of Psychoeducational Assessment

Jeong J, Franchett E E, Oliveira C V, Rehmani K, Yousafzai A (2021), 'Parenting interventions to promote early child development in the first three years of life: A global systematic review and meta-analysis', PLOS Medicine

Offeryn

PROFFIL ASESU AR GYFER RHAGLENNI PLENTYNDOD CYNNAR (APECP)

Ffynhonnell/ffynonellau

Ishimine K, Tayler C (2014), 'Assessing quality in early childhood education and care', European Journal of Education, 49(2), tudalennau 272 i 290

Offeryn

PRAWF RHWYDWAITH SYLW

Ffynhonnell/ffynonellau

Zeng N, Ayyub M, Sun H, Wen X, Xiang P, Gao Z (2017), 'Effects of Physical Activity on Motor Skills and Cognitive Development in Early Childhood: A Systematic Review', BioMed Research International

Offeryn

MYNEGAI DATBLYGU CYNNAR AWSTRALIA

Ffynhonnell/ffynonellau

Australian Institute of Health and Welfare (2011), 'National outcome measures for early child development: Development of an indicator-based reporting framework', Australian Institute of Health and Welfare

Sims M, Brettig K (2018), 'Early childhood education and early child development: Do the differences matter?', Power and Education

Offeryn

RHESTR DDATBLYGIADOL BATTELLE

Ffynhonnell/ffynonellau

Bedford H, Walton S, Ahn J (2013), 'Measures of Child Development: A review', Sefydliad Iechyd Plant UCL

Halle T, Zaslow M, Wessel J, Moodie S, Darling-Churchill K (2011), 'Understanding and choosing assessments and developmental screeners for young children: Profiles of selected measures', adalwyd o'r Office of Planning, Research, and Evaluation, Administration for Children and Families, U.S. Department of Health and Human Services

Offeryn

GRADDFEYDD BAYLEY O DDATBLYGIAD BABANOD A PHLANT BACH

Ffynhonnell/ffynonellau

Bedford H, Walton S, Ahn J (2013), 'Measures of Child Development: A review', Sefydliad Iechyd Plant UCL

Peacock S, Konrad S, Watson E, Nickel D, Muhajarine N (2013), 'Effectiveness of home visiting programs on child outcomes: a systematic review', BMC Public Health

Offeryn

BAYLEY FFURF FER – ARGRAFFIAD YMCHWIL (BSF-R) GRADDFA FEDDYLIOL

Ffynhonnell/ffynonellau

Ramanathan S, Balasubramanian N, Faraone S V (2021), 'Association between transient financial stress during early childhood and pre-school cognitive and socioemotional development', Infant and Child Development, 30(6), Erthygl e2267

Offeryn

HOLIADUR ARFERION AMSER GWELY (BRQ)

Ffynhonnell/ffynonellau

Selman S, Dilworth-Bart J (2023), 'Routines and child development: A systematic review', Journal of Family Theory and Review

Offeryn

SYSTEM ASESU YMDDYGIAD I BLANT–AIL ARGRAFFIAD (BASC-2)

Ffynhonnell/ffynonellau

Gokiert R, Georgis R, Tremblay M, Krishnan V, Vandenberghe C, Lee C (2014), 'Evaluating the Adequacy of Social-Emotional Measures in Early Childhood', Journal of Psychoeducational Assessment

Offeryn

GRADDFA SGORIO STRATEGAETH YMDDYGIADOL

Ffynhonnell/ffynonellau

Kilkas E, Tang X (2018), 'Child-perceived teacher emotional support, its relations with teaching practices, and task persistence', Springer

Offeryn

MESURAU BIOLEGOL (HORMONAU STRAEN, MARCWYR GENETIG AC EPIGENETIG)

Ffynhonnell/ffynonellau

Shonkoff J (2010), 'Building a New Biodevelopmental Framework to Guide the Future of Early Childhood Policy', Child Development

Offeryn

SGRINIAU PLENTYNDOD CYNNAR BRIGANCE

Ffynhonnell/ffynonellau

Bedford H, Walton S, Ahn J (2013), 'Measures of Child Development: A review', Sefydliad Iechyd Plant UCL

Halle T, Zaslow M, Wessel J, Moodie S, Darling-Churchill K (2011), 'Understanding and choosing assessments and developmental screeners for young children: Profiles of selected measures', adalwyd o'r Office of Planning, Research, and Evaluation, Administration for Children and Families, U.S. Department of Health and Human Services

Offeryn

GRADDFEYDD GALLU PRYDEINIG

Ffynhonnell/ffynonellau

Melhuish E, Gardiner J (2021), 'Study of Early Education and Development (SEED): Developing alternative quality scales for Early Childhood Education and Care (ECEC) using exploratory analysis', Briff Ymchwil, Gwefan yr Adran Addysg

Offeryn

Q-SET PLANT CALIFFORNIA (CCQ)

Ffynhonnell/ffynonellau

Causadias J, Salvatore J, Sroufe L (2015), 'Early patterns of self-regulation as risk and promotive factors in development: A longitudinal study from childhood to adulthood in a high-risk sample', International Journal of Behavioral Development

Offeryn

CYFRES O BROFION NIWROSEICOLEGOL CAERGRAWNT

Ffynhonnell/ffynonellau

Zeng N, Ayyub M, Sun H, Wen X, Xiang P, Gao Z (2017), 'Effects of Physical Activity on Motor Skills and Cognitive Development in Early Childhood: A Systematic Review', BioMed Research International

Offeryn

BIOFARCWYR CARDIOMETABOLIG

Ffynhonnell/ffynonellau

van Ekris E, Altenburg T M, Singh A S, Proper K I, Heymans M W, Chinapaw M J (2016), 'An evidence-update on the prospective relationship between childhood sedentary behaviour and biomedical health indicators: a systematic review and meta-analysis', Obesity Reviews, 17(9), tudalennau 833 i 849

Offeryn

GRADDFA RHYNGWEITHIO GOFALWR: CIS

Ffynhonnell/ffynonellau

Ishimine K, Tayler C (2014), 'Assessing quality in early childhood education and care', European Journal of Education, 49(2), tudalennau 272 i 290

Offeryn

OFFERYNNAU DATBLYGIAD CYNNAR A ADRODDWYD GAN OFALWYR (CREDI)

Ffynhonnell/ffynonellau

Lysons J, Pineda R M, Alarcon G, Aquino M R J, Cann H, Fearon P, Kendall S, Kirman J, Woodman J (2024), 'Measuring child development at the 2-2½ year health and development review', National Institute for Health and Care Research (NIHR) Child and Family Policy Research Unit

Offeryn

IS-BRAWF CYFATEB RHIFAU CAS

Ffynhonnell/ffynonellau

Johnson G M (2010), 'Internet use and child development: Validation of the ecological techno-subsystem', Journal of Educational Technology & Society, 13(1), tudalennau 176 i 185

Offeryn

IS-BRAWF MATRICSAU DIEIRIAU CAS

Ffynhonnell/ffynonellau

Johnson G M (2010), 'Internet use and child development: Validation of the ecological techno-subsystem', Journal of Educational Technology & Society, 13(1), tudalennau 176 i 185

Offeryn

IS-BRAWF CYFRES GEIRIAU CAS

Ffynhonnell/ffynonellau

Johnson G M (2010), 'Internet use and child development: Validation of the ecological techno-subsystem', Journal of Educational Technology & Society, 13(1), tudalennau 176 i 185

Offeryn

RHESTR WIRIO YMDDYGIAD PLANT

Ffynhonnell/ffynonellau

Black M, Barnes A, Strong M, Brook A, Ray A, Holden B, Foster C, Taylor-Robinson D (2021), 'Early patterns of self-regulation as risk and promotive factors in development: A longitudinal study from childhood to adulthood in a high-risk sample', Environmental Research and Public Health

Gokiart R, Georgis R, Tremblay M, Krishnan V, Vandenberghe C, Lee C (2014), 'Evaluating the Adequacy of Social-Emotional Measures in Early Childhood', Journal of Psychoeducational Assessment

Jeong J, Franchett E E, Oliveira C V, Rehmani K, Yousafzai A (2021), 'Parenting interventions to promote early child development in the first three years of life: A global systematic review and meta-analysis', PLOS Medicine

Offeryn

GRADDFA RHYNGWEITHIO GOFALWYR PLANT (CCIS)

Ffynhonnell/ffynonellau

Ishimine K, Tayler C (2014), 'Assessing quality in early childhood education and care', European Journal of Education, 49(2), tudalennau 272 i 290

Offeryn

RHESTR DATBLYGIAD PLANT

Ffynhonnell/ffynonellau

Bedford H, Walton S, Ahn J (2013), 'Measures of Child Development: A review', Sefydliad Iechyd Plant UCL

Yang S, Said M, Peyre H, Ramus F Taine M, Law E, Dufourg M, Heude B, Charles M, Bernard J (2023), 'Associations of screen use with cognitive development in early childhood: the ELFE birth cohort', Journal of Child Psychology and Psychiatry

Offeryn

ADOLYGIAD DATBLYGIAD PLANT (CDR)

Ffynhonnell/ffynonellau

Bedford H, Walton S, Ahn J (2013), 'Measures of Child Development: A review', UCL Institute of Child Health

Offeryn

RHESTR ARFERION PLANT (CRI)

Ffynhonnell/ffynonellau

Selman S, Dilworth-Bart J (2023), 'Routines and child development: A systematic review', Journal of Family Theory and Review

Offeryn

HOLIADUR ARFERION PLANT (CRQ/CRQ-P)

Ffynhonnell/ffynonellau

Selman S, Dilworth-Bart J (2023), 'Routines and child development: A systematic review', Journal of Family Theory and Review

Offeryn

HOLIADUR YMDDYGIAD CYMDEITHASOL PLANT WEDI'I LENWI GAN ATHRAWON.

Ffynhonnell/ffynonellau

Melhuish E, Gardiner J (2020), 'Study of Early Education and Development (SEED): Impact Study on Early Education Use and Child Outcomes up to age five years', Research Report. Adran Addysg

Offeryn

SYSTEM SGORIO ASESU YN YR YSTAFELL DDOSBARTH (DOSBARTH)

Ffynhonnell/ffynonellau

